# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 5 |
| 5 - Ymgysylltu gydag Aelodau | 9 |
| 6 - Amrywiaeth | 10 |
| Atodiad 1 | 13 |
| 7 - Mynychu o Bell | 74 |
| 8 - Gwe-ddarlledu | 76 |
| Atodiad 1 | 77 |
| 9 - Gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned | 90 |
| 10 - Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig | 92 |
| 11 - Cyfweliadau Datblygu Personol | 94 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00am DYDD MAWRTH, 9 MEDI, 2014**

**10.00am TUESDAY, 9 SEPTEMBER, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**EIRIAN ROBERTS**

**(01286) 679018**

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 3.09.14

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

**AELODAETH / MEMBERSHIP (15)**

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Selwyn Griffiths
Annwen Hughes
Michael Sol Owen
Dilwyn Morgan
Mair Rowlands
Mandy Williams-Davies
[*sedd wag / vacant seat*]

**Annibynnol / Independent (4)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Jean Forsyth
Tom Ellis
Anne Lloyd-Jones

**Llais Gwynedd (3)**

Anwen Davies
Jason Humphreys
Gweno Glyn

**Llafur / Labour (1)**

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

**Aelod Ex-officio / Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor / Chairman of the Council
Y Cynghorydd / Councillor Dewi Owen

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm)

**5. YMGYSYLLTU GYDAG AELODAU**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**6. AMRYWIAETH**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**7. MYNYCHU O BELL**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**8. GWE-DDARLLEDU**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**9. GWEFANNAU I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**10. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**11. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 03/06/14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Tom Ellis, Jean Forsyth, E. Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Siôn Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Mair Rowlands a Mandy Williams-Davies.

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Gofal Cwsmer)

**Swyddogion:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd cadarnhau penderfyniad y Cyngor ar 1 Mai 2014 i ail-ethol y Cynghorydd Lesley Day yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Tom Ellis yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.**

## 3. CROESO

Estynnwyd croeso i'r Cynghorydd Mair Rowlands i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. COFNODION

(a) Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2014, fel rhai cywir.

(b) Nodwyd mai'r rheswm dros absenoldeb y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, oedd ei bod yn cynrychioli Cadeirydd y Pwyllgor hwn mewn cyfarfod allanol.

## 6. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu trefniadau ar gyfer Aelodau i fedru cynhyrchu adroddiadau blynyddol i gynnwys gwybodaeth ffeithiol o weithgareddau, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

(b) Pwysleisiwyd nad oedd yn rheidrwydd a statudol i Aelodau ddarparu adroddiad blynyddol ond ei fod ynghlwm â datblygiad y Siarter Aelodau ac yn fodd o ddarparu gwybodaeth i etholwyr am waith Aelodau a'i fod yn ofynnol i'r Cyngor wneud darpariaeth i aelodau fedru llunio adroddiadau blynyddol. Cyfeiriwyd at esiampl o dempled ynghlwm i'r adroddiad a fyddai o ddefnydd ac o gymorth i Aelodau i gwblhau eu hadroddiadau.

(c) Tra 'roedd rhai Aelodau yn croesawu'r syniad o ddarparu adroddiadau blynyddol, nododd eraill nad oeddynt o blaid oherwydd yn bennaf pwysau gwaith ar weithgareddau etholaethol. Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol o safbwynt fformat y templed enghreifftiol:

(i) Y byddai'n anodd cyfyngu'r holl wybodaeth i ddwy dudalen ac awgrymwyd rhoi "bwriad yr adroddiad blynyddol" i gyntaf gan ddilyn gyda "rôl a chyfrifoldebau" – nodwyd na fyddai cyfyngiad ar hyd adroddiadau
(ii) Dylid cynnwys cyfarfodydd paratoi'r Pwyllgorau Craffu sydd yn rhan greiddiol o'i gwaith ynghyd â'r Fforymau Ardal, cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol, a.y.b.
(iii) Awgrymwyd y dylid diddymu'r golofn "absennol" o'r tabl presenoldeb
(iv) Yn yr un modd, gall absenoldeb oherwydd gwaeledd am gyfnod penodol greu camargraff i'r cyhoedd

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng mynychu Pwyllgorau, bod yn rhan o weithdai, ymchwiliadau, a.y.b. a yn gweithio'n ddiwyd yn eu cymunedau

(c) Croesawyd y sylwadau uchod a phwysleisiwyd bod y templed ar gael i gynorthwyo Aelodau ac y byddai modd ei addasu i anghenion unigolion i fedru egluro i'r etholwyr y dyletswyddau a ymgymerir ganddynt. Byddai'r templed ar gael i oll Aelodau'r Cyngor drwy E-bost maes o law.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn fformat y templed gan gymryd i ystyriaeth y mân addasiadau a grybwyllwyd yn (i) i (iv) uchod.**

**(b) Cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ym mis Medi ar ddarpariaeth hyfforddiant ar ffurf ar-lein.**

## 7. GWE DDARLLEDU

(a) Cyflwynwyd rhaglen waith fras ar gyfer cyflwyno darpariaeth Gwe-ddarlledu o dan gytundeb dwy flynedd gyda chwmni Public-i sy'n gweithredu yn y maes drwy Gymru, Alban a Lloegr.

(b) Croesawyd Mr Matthew Jellings, Uwch Reolwr Cysylltiadau, Public-i, i'r cyfarfod a derbyniwyd cyflwyniad ganddo. Ymhelaethwyd ar fanteision gwe-ddarlledu ac, o brofiad mewn awdurdodau eraill nodwyd y tueddiadau isod:

- Cynyddu cynulleidfa
- Cyfathrebu rhyngweithiol ar-lein
- Defnydd o amlgyfryngau megis i-Pads, ffonau symudol, a.y.b.
- Yr angen am newid sefydliadol a strategaeth cyfryngau cymdeithasol
- Engreifftiau o gyd-gynhyrchu gyda chymunedau

Byddai gwe-ddarlledu felly yn cynnig cyfleoedd i recordio cynnwys cyfarfodydd a'i rannu gyda'r cyhoedd, posibilrwydd i newid canfyddiadau pobl o'r Cyngor, y gallu i gadw'r cofnod mewn archif yn ogystal ag agor cyfleoedd i gynnig proses o ddeialog gyda'r cyhoedd.

(c) Ymatebwyd i sylwadau wnaed gan aelodau unigol fel a ganlyn:

- Bod yr isadeiledd angenrheidiol o safbwynt y camerâu eisoes wedi ei osod
- O ran cyfieithiadau y byddai neges ar y sgrin pan ddarlledir cyfarfodydd lle nad oedd angen cyfieithydd yn nodi nad oedd cyfieithiad ar gael. Fodd bynnag, gellir ystyried sefydlu trefniadau i gofrestru'r angen am gyfiethiaid ymlaen llaw

- Boddarpariaeth grant gan Lywodraeth Cymru yn cyfateb i gost y gwasanaeth am ddwy flynedd

ch Ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y byddir yn rhaglennu i gyflwyno'r ddarpariaeth gan sicrhau hyfforddiant penodol i Aelodau a swyddogion. Bwriedir dechrau treialu'r cyfarpar yn raddol drwy recordio rhai cyfarfodydd a pheidio eu gwe-ddarlledu er mwyn gweld os oes gwersi pellach i'w dysgu a sicrhau'r ddelwedd gywir o'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn, nodi a diolch i Mr Matthew Jellings am y cyflwyniad diddorol.**

**(b) Cymeradwyo i gyflwyno cyfundrefn gwe-ddarlledu yn unol â'r rhaglen waith fras a gyflwynwyd.**

## 8. CYFLOGAU AELODAU

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru Aelodau o'r gofynion cyhoeddi cyflogau Aelodau.

(b) Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol bod gofyn i gyhoeddi cyflogau Aelodau ar ddau achlysur sef cyn diwedd Gorffennaf eleni (amcangyfrif o'r taliadau a wneir am 2014/15) a chyn diwedd Medi (ycyflogau a'r costau teithio a dalwyd yn 2013/14). Bwriedir cyhoeddi rhestr erbyn diwedd Gorffennaf ar y Wefan a chyhoeddi taliadau 2013/14 yn Newyddion Gwynedd.

(c) Yn dilyn pryderon y llynedd ynglŷn â'r cyhoeddiad yn Newyddion Gwynedd bwriedir cynnwys esboniad ynglŷn â chyfrifoldebau Aelodau'r fainc gefn a'r Aelodau Cabinet e.e. dyddiadur enghreifftiol o'r math o ddyletswyddau a ymgymerir ganddynt. Y nod yw defnyddio Newyddion Gwynedd i roi darlun mwy cyflawn o beth mae Aelodau yn wneud yn hytrach na chyflwyno tabl moel o gyflogau a chostau teithio.

(ch) Er gwybodaeth, nodwyd ymhellach bod Cyllid a Thollau EM wedi cyhoeddi yn ddiweddar bod costau teithio yn drethadwy os na ellir profi bod cartref Aelodau yn fan gweithio iddynt ac efallai y bydd yn rhaid cael rhyw elfen o dystiolaeth i'r perwyl hwn.

(ch) Mynegwyd pryder gan aelod nad oedd y cyhoedd yn sylweddoli'r amser a dreulia rhai Aelodau ac yn benodol o Dde Wynedd yn teithio i gyfarfodydd canolog

**Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad ac y byddai'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol yn llunio'r cynnwys ar gyfer Newyddion Gwynedd yn unol â'r hyn a amlinellwyd.**

## 9. YMGYSYLLTU EFO AELODAU

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru Aelodau ynglŷn â chynigion pellach ar wella ymgysylltu gydag Aelodau.

(b) Yn dilyn y gweithdai a gynhaliwyd, yr holiadur anfonwyd ac adroddiad i'r Fforwm Penaethiaid, penderfynwyd sefydlu Grŵp Tasg o Benaethiaid ac Aelodau i gyd-drafod yr hyn ellir gwneud ar gyfer gwella o safbwynt cyfathrebu. Nodwyd ymhellach y cynhelir hyfforddiant yn ystod Gorffennaf ar arwain cymunedau mewn adeg o newid heriol.

(c) Nododd y Cadeirydd bod cais wedi ei anfon yn ddiweddar am enwebiadau o aelodau i wasanaethu ar y Grŵp Tasg uchod. Cadarnhawyd y byddai'r Aelod Cabinet perthnasol a

Chadeirydd y Pwyllgor hwn yn trafod cydbwysedd yr aelodaeth pe derbynnir gormod o enwau.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r bwriadau uchod.**

## 10. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu'r wybodaeth ddiweddaraf ar drefniadau'r Cyngor i gynnig cyfweliad datblygu personol i Aelodau.

(b) Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod pob Cyngor yn cynnig proses i Aelodau asesu eu hanghenion datblygu er bod cymryd mantais o hynny yn ddewisol i aelodau. Nodwyd bod y paratoadau wedi symud ymlaen a'r bwriad ydoedd addasu templed y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y cyfweliadau. Bwriedir anfon llythyr at bob Aelod yn ei gwahodd i gyfweliad gyda'r bwriad o'u cynnal cyn Medi.

(c) Mewn ymateb, teimlai rhai Aelodau eu bod wedi derbyn llawer o hyfforddiant dros y blynyddoedd mewn gwaith o ddydd i ddydd a bod elfen o ddyblygu yn yr hyn a gynigir. Fodd bynnag, croesawai rhai eraill dderbyn hyfforddiant a'i fod yn un o'r arfau pwysicaf y gall y Cyngor gynnig yn gorfforaethol yn enwedig mewn oes o newid.

(ch) Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y byddai'r cyfweliad yn hollol gyfrinachol ac y gellir trafod pa hyfforddiant sydd gan Aelodau a pha rai y gellir cynnig i'w anghenion.

**Penderfynwyd derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.30 pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Medi, 2014** |
| **PWNC** | **Ymgysylltu efo Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar drafodaethau diweddar a chynigion pellach ar wella ymgysylltu gydag aelodau** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Adroddwyd i gyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar y trafodaethau diweddar ar ffyrdd o wella ymgysylltu gydag aelodau. Yn benodol, awgrymwyd cynnull grwp o gynghorwyr a swyddogion ynghyd i drafod ymhellach a chyd-gynllunio unrhyw gamau nesaf.

2. Yn ogystal, ddechrau Gorffennaf, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi / datblygu ar rôl cynghorwyr mewn cyfnod o newid mawr. Y nod oedd bod o gymorth i aelodau yn eu rôl o arwain eu cymunedau dros y blynyddoedd anodd sydd yn ein wynebu.

3. Cyfarfu'r grwp o gynghorwyr a swyddogion ar 21 Gorffennaf, a cafwyd trafodaeth ddefnyddiol iawn yn dadansoddi yr hyn sydd yn dda ar hyn o bryd o ran trefniadau ymgysylltu gydag aelodau a'r hyn sydd angen ei wella. Arweiniodd hyn at gytundeb o fewn y rhestr o 11 o feysydd lle mae angen gwella, yn eu plith faterion strategol fel "Cynllunio Newid" a "Rheoli Disgwyliadau" a materion fwy gweithredol fel "Gwybodaeth Cyswllt iawn" a "Chyfryngau Cymdeithasol".

4. Y bwriad yn awr yw bod y grwp yn ail-ymgynnull os yn bosib yn ystod mis Medi i gytuno ar weithrediad ymarferol er mwyn gwella yn y meysydd unigol. Bydd hyn yn arwain at raglen waith y gellir monitro cynnydd yn ei erbyn. Bydd y rhaglen waith arfaethedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor hwn.

5. Cafwyd derbyniad gwresog iawn i gynnwys y sesiwn hyfforddi a datblygu ar ddechrau Gorffennaf a mynegodd nifer o aelodau y farn y byddai'n ddefnyddiol i aelodau eraill fynychu sesiwn o'r fath yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu'r galw am hyn ac yn trefnu sesiwn pellach yn ôl yr angen.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Medi, 2014** |
| **PWNC** | **Amrywiaeth** |
| **PWRPAS** | **Adrodd am y canfyddiadau a'r cynigion diweddar ynglŷn â gwella amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. **Cefndir**

1.1 Sefydlwyd Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2008 er mwyn ymchwilio i argymhellion y "Comisiwn Cynghorwyr" – a sefydlwyd yn ei dro gan Lywodraeth y DU i adolygu cyfranogiad mewn llywodraeth leol yn Lloegr - ac i ystyried yn fwy eang y rhwystrau i gyfranogaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru.

1.2 Roedd hwn yn gorff gweddol fawr (13 o aelodau), gan gynnwys cynghorwyr, cynrychiolwyr busnes, swyddogion pleidiau gwleidyddol, cynrychiolwyr undebau llafur a chydraddoldeb. Fe'i cadeiriwyd gan Sophie Howe a chyhoeddwyd ei adroddiad 'At Ein Gwasanaeth?' ym mis Tachwedd 2008.

1.3 Roedd yr adroddiad yn cynnwys 35 o argymhellion, gan gynnwys rhai yn ymwneud â monitro cydraddoldeb cynghorwyr, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, hyfforddiant a datblygiad i gynghorwyr, addysg wleidyddol i ysgolion, absenoldebau teuluol i aelodau etholedig a chydnabyddiaeth ariannol.

1.4 Nid oeddynt i gyd wedi'u hanelu at Lywodraeth Cymru, roedd rhai wedi'u hanelu at lywodraeth leol ac roedd y rhain yn destun diweddariadau gan CLlLC

1.5 Arweiniodd llawer o argymhellion y Panel Arbenigol at y materion polisi yr eir i'r afael a hwy drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Y Mesur").

1.6 Cyflwynwyd y Mesur hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn ymgorffori polisïau a ddatblygwyd o sawl ffynhonnell yn y brif ddeddfwriaeth. Cyn 2009, roedd y rhain yn anodd mynd i'r afael a hwy oherwydd y diffyg yn y pwerau deddfwriaethol a roddwyd i'r Cynulliad.

1.7 Yn benodol, roedd Rhannau 1 a 2 wedi'u gwreiddio yn adroddiad y Panel Arbenigol. Roedd y mwyafrif o'r darpariaethau hyn yn unigryw i Gymru.

1.8 Roedd yn ofynnol dan y Mesur bod y 22 Prif Gynghorau yn darparu:

1. Arolwg o'r ymgeiswyr
2. Mynychu o bell
3. Adroddiadau Blynyddol
4. Amserlennu Cyfarfodydd y Cyngor
5. Hyfforddiant a Datblygiad
6. Gwasanaethau Democrataidd
7. Absenoldeb Teuluol

## 2. Y Sefyllfa Bresennol

2.1 Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, y byddai yn sefydlu grŵp arbenigol i ystyried canlyniadau'r arolwg mewn manylder gan gymryd tystiolaeth gan grwpiau â diddordeb a sefydlu cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol er mwyn sicrhau ein bod gyda'n gilydd yn gwneud y gorau i annog mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth leol rhwng rŵan a 2017.

2.2 Yn ôl yr Athro Laura McAllister, Cadeirydd y Grŵp Arbenigol, mae gwaith y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol wedi cyd-redeg â gwaith y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi'i gadeirio gan Sir Paul Williams ("Comisiwn Williams"), ac ymddengys yn debygol y bydd ei argymhellion yn arwain at leihad yn y nifer o gynghorwyr a chynghorau yng Nghymru. Os digwydda hyn, bydd yn hanfodol bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau bod gwella amrywiaeth yn ffactor bwysig fyddai'n dylanwadu ar ddewis ymgeiswyr i gynghorau newydd.

2.3 Atodir Adroddiad Grŵp Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru - Ar Ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru yn Atodiad 1.
Roedd y ddogfen yn rhoi sylw i bynciau megis sefydlu meiri a chabinet ieuenctid, mentrau pleidiau gwleidyddol, mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogaeth ac ymarfer da wrth gyfarch amrywiaeth.

## 3. Adroddiad Blynyddol gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2013/14

3.1 Yn yr Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, cynigiodd Les Day rai awgrymiadau megis bod Cynghorwyr Gwynedd sy'n fenywod yn ffurfio Fforwm Merched ble y gwllid edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno grwpiau sy'n darparu cefnogaeth, rhwydweithio a chynnig mentora i gynghorwyr sy'n fenywod er mwyn annog mwy o ferched i sefyll fel darpar gynghorwyr.

3.2 Awgrymodd y Cynghorydd Day y dylid cychwyn ymgysylltu â phlant ysgol er mwyn dal eu dychymyg, ymweld ag ysgolion, o bosib sioe deithiol gan gynghorwyr i siarad â dosbarthiadau ysgolion cynradd ynglŷn â dadleuon ysgol ac annog tripiau ysgol i ymweld â siambrau'r cyngor.

3.3 Ymgysylltu â Blynyddoedd 12 ac 13 mewn ysgolion uwchradd gan ddefnyddio cynghorau ysgol sefydledig ac efallai gellid cyfethol aelodau ieuenctid heb bleidlais ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'u cael hwy i ymgysylltu ac annog pobl ifanc. Hyrwyddo gwaith a rôl y cynghorwyr yn egnïol. Hyrwyddo gwaith a rol Aelodau Etholedig.


3.4 Awgrymodd y Cynghorydd Day y dylid siarad â grwpiau Mynediad ynghyd â'r Pencampwr Anableddau, y Cynghorydd Peter Read. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael i Ofalwyr.

## 4. Argymhellion

Sefydlu Is-grwp Democratiaeth o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd dan arweiniad y Cadeirydd, gyda'r aelodaeth i gynnwys y Pencampwyr a nodwyd er mwyn ystyried a datblygu rhaglen waith i'w chyflwyno i'r Pwyllgor.

# Ar ôl pwyso a mesur:
## Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru

Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth
mewn Llywodraeth Leol



Argraffwyd ar bapur wedi’i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 1009 1
ISBN digidol 978 1 4734 1008 4
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21147

**Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru**

**Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol**

# Cynnwys


Rhagair........................................................................................................ 1

Cyflwyniad.................................................................................................... 3

Casglu Tystiolaeth..................................................................................... 14

Themâu o’r Dystiolaeth ............................................................................. 26

Casgliadau ................................................................................................ 34

ARGYMHELLION....................................................................................... 41

CYNLLUN GWEITHREDU AC AMSERLEN ............................................... 45

ATODIAD 1 ................................................................................................ 52

ATODIAD 2 ................................................................................................ 53

ATODIAD 3 ................................................................................................ 55

ATODIAD 4 ................................................................................................ 57

## Rhagair



Mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau rheng flaen i’r cyhoedd sy’n hanfodol i'w bywydau bob dydd. Boed y gwasanaethau hynny yn ysgolion y mae ein plant yn eu mynychu, y gofal cymdeithasol y mae ein perthnasau oedrannus yn dibynnu arnynt, y ffyrdd a’r palmentydd rydym yn eu defnyddio i yrru, cerdded neu seiclo arnynt, y parciau, y canolfannau hamdden neu’r llyfrgelloedd a ddefnyddiwn, neu’r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu o’n cartrefi, mae pob un ohonom yn dibynnu i wahanol raddau ar ein cynghorau lleol.

Mae’n bwysig felly bod y bobl sy’n gwneud penderfyniadau ar ein rhan am yr holl faterion hyn yn deall eu cymunedau lleol ac yn gynrychioliadol ohonynt. Wrth edrych ar y darlun cyfan, yn anffodus, nid felly y mae hi yn achos llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Nid oes dim cyngor sir na chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru lle mae nifer gyfartal o’r ddau ryw arnynt. Yn amlach na pheidio, rhwng 20% a 30% o aelodau’r cynghorau sy’n fenywod a gall fod yn llai na hynny weithiau. Oed cynghorwyr yng Nghymru ar gyfartaledd yw oddeutu 60 ac nid yw hyn wedi newid dim o fewn yr ystod honno ers sawl blwyddyn. Mae nifer y cynghorwyr nad ydynt yn wyn yn fach iawn hyd yn oed mewn ardaloedd o Gymru lle mae nifer gymharol fawr o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.

Ar ben hyn, mae gennym ormod o lawer o gynghorwyr sydd wedi’u hethol yn ddiwrthwynebiad ac, at ei gilydd, mae nifer y bobl sy’n pleidleisio mewn etholiadau lleol yn siomedig o isel.

Nid dim ond mater o egwyddorion cydraddoldeb yw hyn – er bod hynny’n bwysig hefyd – ond yr angen hollbwysig i lenwi siambrau cynghorau â chynrychiolwyr a chanddynt ystod o brofiadau bywyd amrywiol a gwahanol ddyheadau. Mae hyn yn annhebygol os yw proffil llywodraeth leol yn aros yn rhy unffurf.

Mae gwaith y Grŵp Arbenigwyr wedi rhedeg ochr yn ochr â gwaith y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, dan gadeiryddiaeth Syr Paul Williams (“Comisiwn Williams”)[1]. Mae’n debygol y bydd ei argymhellion yn arwain at ostyngiad yn y nifer o gynghorwyr a chynghorau yng Nghymru. Os bydd hyn yn

[1] http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?skip=1&lang=cy

digwydd, bydd yn hollbwysig bod y cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod gwella amrywiaeth yn un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis ymgeiswyr i gynghorau newydd.

Roeddwn yn falch o gael fy mhenodi'n Gadeirydd y Grŵp Arbenigwyr a sefydlwyd gan Lesley Griffiths (Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth) i edrych ar y materion uchod. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, ynghyd â'r argymhellion ynddo, yn gyfrwng i ddwyn newid sylweddol o ran y mathau o bobl sy'n eu cynnig eu hunain i sefyll mewn etholiad yn yr etholiadau lleol nesaf, ar lefel sir a chymuned. Bydd angen i ni wneud yn siŵr hefyd bod gwahanol ymgeiswyr yn cael eu hethol. Bydd cynghorwyr amrywiol yn adfywio ein cynghorau lleol ac yn llywio cyfeiriad y cynghorau yn y dyfodol fel haen hanfodol o'r broses lywodraethu yn ein gwlad fach.



Yr Athro Laura McAllister
Cadeirydd, Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol

# Cyflwyniad

Ym mis Mai 2013, llwyddodd Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, gyda'r cynnig canlynol yn y Cynulliad.

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn gwerthfawrogi angenrheidrwydd dadlau dros ddemocratiaeth leol sy'n effeithlon, yn agored, yn dryloyw ac yn atebol a phwysigrwydd annog mwy o amrywiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn Llywodraeth Leol.*

*Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y pen draw i hwyluso ffrydio byw yn ystod pob un o gyfarfodydd craffu a chabinet cynghorau.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno agenda cynhwysfawr a fydd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â bod yn agored, tryloywder ac atebolrwydd mewn democratiaeth leol a llywodraeth leol.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau ei bod yn cefnogi datganoli cyfrifoldeb dros etholiadau llywodraeth leol i'r Cynulliad Cenedlaethol.*

*Yn gresynu nad yw oddeutu 77,000 o bobl ifanc 16 a 17 oed yng Nghymru yn cael pleidleisio ar hyn o bryd ac yn credu y byddai atebolrwydd democrataidd yn cael ei gryfhau drwy ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cyngor lleol.*

Yn ystod y cyfarfod llawn[2], dywedodd y Gweinidog:

"Pan gyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg, dywedais hefyd y byddwn yn gwneud cyhoeddiad ychwanegol ar fy nghynlluniau i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill i ehangu cyfranogiad mewn democratiaeth. Heddiw, rwyf yn falch o gyhoeddi fy mod yn bwriadu sefydlu grŵp arbenigol i ystyried canlyniadau'r arolwg yn fanwl, cymryd tystiolaeth gan grwpiau sydd â diddordeb, ac amlinellu cynllun gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol i sicrhau ein bod ar y cyd, rhwng

[2] http://www.assemblywales.org/docs/rop_xml/130514_plenary_bilingual.xml#83588

nawr a 2017, yn gwneud ein gorau i annog mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth leol."

Yn dilyn hyn, sefydlwyd y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2013. Gofynnodd y Gweinidog i'r Grŵp Arbenigwyr adolygu canlyniadau Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol (arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus mewn etholiadau sir a chymuned yn 2012), gan ystyried ffyrdd y gellid gwella'r arolwg ei hun a'r cyfraddau ymateb ac i edrych yn fwy cyffredinol ar broffil llywodraeth leol gyda'r bwriad o gynnig argymhellion ar wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn etholiadau lleol 2017.

Mae cylch gorchwyl llawn y Grŵp Arbenigwyr ar gael yn **Atodiad 1**. Mae bywgraffiadau aelodau'r Grŵp Arbenigwyr ar gael yn **Atodiad 2**.

Mae diffyg amrywiaeth mewn siambrau cynghorau ledled Cymru wedi bod yn destun pryder ers blynyddoedd lawer. Mae'n bur debyg bod effaith ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 wedi atgyfnerthu'r traddodiad o gael cyfran helaeth o ddynion gwyn, hŷn ar y cynghorau. Wrth uno'r hen gynghorau sir ag amrywiol awdurdodau cynghorau dosbarth, bwrdeistref a dinas yng Nghymru, gwelwyd cystadleuaeth ymhlith ymgeiswyr cyn yr etholiadau cyntaf ar gyfer y siroedd newydd. Yn nifer o'r achosion, llwyddodd y rheini a oedd eisoes yn gynghorwyr sir i fod yn ymgeiswyr. Tueddai'r rhain i fod yn aelodau hŷn a chyfarwydd o'u pleidiau gwleidyddol, gyda chefnogaeth gref yng nghanghennau lleol eu plaid. Yn aml iawn, byddai cynghorwyr cynghorau dosbarth, bwrdeistref neu ddinas a oedd yn iau ac yn llai profiadol yn colli cyfle. Felly, ystyrir yn gyffredinol fod gan y cynghorau aelodau hŷn a hyd yn oed fwy o ddynion arnynt nag o'r blaen.

Mae proffil cynghorwyr lleol yn destun pryder am sawl rheswm. Mae nifer y menywod sy'n cael swyddi uwch mewn sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn cynyddu'n araf bach, ond nid yw'r rhain na chyfran y gweithlu sy'n fenywod yn cael eu hadlewyrchu mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Nid oes ychwaith, ac eithrio ambell enghraifft wych mewn ambell awdurdod lleol, unrhyw adlewyrchiad o broffil iau Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU a Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Ond, yn bwysicaf oll efallai, os yw pobl yn credu mai dynion gwyn, hŷn sy'n rhedeg llywodraeth leol (fel sy'n wir mewn sawl ardal), gall hyn beri i bleidleiswyr gadw draw ac mae tanio eu brwdfrydedd yn anodd yn barod fel y gwelir yn y nifer a ddaw i bleidleisio ac, yn wir, yn yr holl weithgarwch gwleidyddol.

Yng ngeiriau Williams[3] (tudalen 174, paragraff 5.49):

*Mae amrywiaeth yn golygu mwy na dim ond amrywiaeth rhywiol neu ethnig; mae'n golygu gwahanol leisiau, nid dim ond gwahanol nodweddion. Mae'r bobl sydd mewn swyddi lefel uwch, ar Fyrddau ac yn benaethiaid ar sefydliadau, yn aml yn rhannu llawer o'r un nodweddion ac felly gall ffordd gyffredin o feddwl fod yn gynhenid i'r system. Fel yr amlinellwyd uchod, bydd angen i ddarpar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus feddu ar amrywiaeth gwahanol o sgiliau i arweinwyr heddiw; bydd angen iddynt fanteisio ar ddulliau newydd ac arloesol ac arwain ar sail systemau. Credwn y byddai diffyg amrywiaeth yn llesteirio'r gwelliant hwn.*

Ar ôl sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999, trefnwyd sawl digwyddiad cyhoeddus rhwng Gweinidogion Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ym mlynyddoedd cynnar 2000, yn aml gyda'r nod o gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gyda chydweithrediad eu sefydliadau cynrychioliadol. Trefnwyd dau ddigwyddiad arall yn ail hanner degawd 2000.

## ***Camu Ymlaen Cymru***

Yn dilyn cynllun a reolwyd gan Ymgyrch y Bleidlais Ddu yn 2007, i unigolion gysgodi Aelodau'r Cynulliad, dyfeisiwyd y Cynllun Peilot Camu Ymlaen Cymru mewn partneriaeth rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CLlLC a Llywodraeth Cymru.

Roedd y cynllun ar waith rhwng mis Hydref 2009 a mis Ebrill 2010, a chafodd 34 o gyfranogwyr o bob rhan o Gymru gyfle i gysgodi a chael eu monitro gan Gynghorydd neu Aelod o'r Cynulliad dros gyfnod o chwe mis. Nod y Cynllun oedd cynyddu ymgysylltiad y cyfranogwyr â chyrff democrataidd a datblygu eu rôl fel dinasyddion gweithgar a llysgenhadon cymunedol. Cynlluniwyd Camu Ymlaen Cymru hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith gwleidyddion etholedig o'r rhwystrau a all wynebu

[3] http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf

pobl sy'n ystyried eu bod hwy eu hunain yn dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Penderfynodd rai o'r cyfranogwyr sefyll yn etholiadau lleol 2012 a dangosodd yr adroddiad gwerthuso[4] fod cryn dipyn yn fwy o ymwybyddiaeth wleidyddol a hyder ymysg y cyfranogwyr.

## ***Y "Panel o Arbenigwyr"***

Cafodd Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2008 i edrych ar argymhellion y "Comisiwn Cynghorwyr" - a sefydlwyd, yn ei dro, gan Lywodraeth y DU i adolygu cyfranogiad mewn llywodraeth leol yn Lloegr - ac i ystyried yn fwy cyffredinol y rhwystrau i gyfranogi mewn llywodraeth leol yng Nghymru a chynnig argymhellion i Weinidogion Cymru.

Roedd y corff hwn yn gymharol fawr (13 aelod) gan gynnwys cynghorwyr, cynrychiolwyr busnes, swyddogion pleidiau gwleidyddol, cynrychiolwyr undebau llafur a chydraddoldeb. Gyda Sophie Howe yn y gadair, cyhoeddodd y panel ei adroddiad "At ein gwasanaeth?"[5] ym mis Tachwedd 2008.

Yn yr adroddiad cynigiwyd 35 o argymhellion, gan gynnwys y rheini yn ymwneud â monitro cydraddoldeb gyda chynghorwyr, ymgyrchu i roi cyhoeddusrwydd, hyfforddi a datblygu cynghorwyr, addysg am wleidyddiaeth mewn ysgolion, absenoldeb teulu i aelodau etholedig a chydnabyddiaeth ariannol. Nid oedd pob un ohonynt wedi'i anelu at Lywodraeth Cymru; roedd rhai wedi'u hanelu at lywodraeth leol ac yn amodol ar y wybodaeth ddiweddaraf gan CLlLC.[6]

---

[4] http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/equalities/step-up-cymru.htm
[5] http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/090814reportcy.pdf

[6] http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&frm=1&source=web&cd=2&ved=0CDIQFjAB&url=http%3A%2F%2Fwww.wlga.gov.uk%2Fdownload.php%3Fid%3D3548%26l%3D1&ei=GRDVUq-NJuS57Abo_4DQAg&usg=AFQjCNGWdjVzOM_odNPgcWHqXa5DLkFVOQ

Yn sgîl llawer o argymhellion y Panel Arbenigwyr, cafodd y materion polisi sylw drwy gyfrwng Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur").

## ***Y Mesur***[7]

Cyflwynwyd y Mesur ger bron y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn troi polisïau a oedd wedi datblygu o amrywiol ffynonellau yn ddeddfwriaeth sylfaenol. Cyn 2009, roedd mynd i'r afael â'r rhain wedi bod yn anodd oherwydd diffyg pwerau deddfwriaethol y Cynulliad. Roedd rhannau 1 a 2, yn benodol, yn tarddu o adroddiad y Panel Arbenigwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn unigryw i Gymru:

### *a) Arolwg o ymgeiswyr*

Cyflwynodd y Mesur ofyniad ar "Brif Gynghorau" (y 22 cyngor sir, dinas, a bwrdeistref sirol) i gynnal arolwg o'r holl gynghorwyr etholedig ac ymgeiswyr aflwyddiannus ar lefel cyngor sir a chyngor cymuned. Roeddent yn gyfrifol am gasglu'r ffurflenni ac anfon y data ymlaen at Lywodraeth Cymru i'w dadansoddi. Lluniwyd y cwestiynau gyda'r nod o gael atebion a fyddai'n datgelu nodweddion personol a chefndir gwaith yr ymgeiswyr er mwyn creu proffil o'r rheini a etholwyd a'r rheini a oedd yn sefyll mewn etholiad llywodraeth leol. Gobeithio y cynhelir yr arolwg ar ôl pob etholiad lleol cyffredin er mwyn datblygu data hydredol. (mae manylion yr adroddiad ar gael isod).

### *b) Mynychu o bell*

Cynlluniwyd hyn gyda'r bwriad o'i gwneud yn bosibl i gynghorwyr mewn cyflogaeth neu gynghorwyr â chyfrifoldebau gofalu fynychu cyfarfodydd y cyngor na fyddent yn gallu eu mynychu fel arall. Roedd hyn yn caniatáu am y tro cyntaf i gyfarfod cyngor gael ei gynnal mewn mwy nag un lleoliad. Dyma ddarpariaeth alluogi, nad yw wedi'i rhoi ar waith eto – ond mae'n debyg y gwneir hynny yn ystod 2014. Mae'n bosibl cael cyfarfod lle mae rhywun yn mynychu o bell dim ond os bydd rheolau sefydlog y

[7] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted

cyngor yn caniatáu hynny. Yng nghyfarfodydd rhwydweithiau CLILC, mae'n amlwg bod ambell gyngor eisoes yn paratoi ar gyfer bwrw ymlaen â'r diwygio hwn, tra bo eraill yn llai brwdfrydig yn ei gylch (adeg ysgrifennu hyn).

### *c) Adroddiadau blynyddol*

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i bob Prif Gyngor sicrhau bod ganddynt drefniadau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol gan unrhyw gynghorydd sy'n dymuno gwneud hynny. Er nad oes rheidrwydd iddynt wneud, ymddengys y bydd y rhan fwyaf o gynghorwyr yn cyhoeddi adroddiad er mwyn dangos i'w hetholwyr yr ystod o ddyletswyddau a wnânt a faint y maent yn ei ymwneud â mentrau lleol. Mae'n bolisi sy'n ceisio gwella ymgysylltiad ynghyd â rhoi darlun gwell i aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn gynghorydd.

### *d) Amser cyfarfodydd cynghorau*

Ar ôl pob etholiad lleol cyffredin (h.y. ar gyfer y cyngor llawn, nid isetholiadau), mae'n ofynnol bod pob Prif Gyngor yn holi ei aelodau i weld beth yw'r amseroedd gorau i gynnal cyfarfodydd y cyngor. Lluniwyd y polisi er mwyn i gynghorau ystyried y cynghorwyr hynny a fyddai o bosibl yn ei chael yn anodd gyda'r amseroedd presennol.

### *e) Hyfforddiant a datblygiad*

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i bob Prif Gyngor sicrhau bod lefel "resymol" o hyfforddiant a datblygiad ar gael i'w aelodau. Diffinnir "rhesymol" mewn canllawiau fel yr hyn sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r Freinlen Datblygu Cynghorwyr gan CLILC[8]. Mae'r cysyniad o gynllun datblygiad personol blynyddol i gynghorwyr yn cael ei gyflwyno hefyd ac mae hyn ar waith gan sawl awdurdod. Yn ôl y wybodaeth gan CLILC, mae o leiaf 15 awdurdod lleol o blith 28 (cynghorau sir, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol) yn cynnal adolygiadau datblygiad personol gyda'u haelodau.

[8] http://www.wlga.gov.uk/breinlen-datblygu-cynghorwyr

### f) Gwasanaethau Democrataidd

Mae'n ofynnol bod pob prif gyngor yn dynodi un o'i swyddogion yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a gwaith y swyddog hwnnw, yn gryno, fydd sicrhau bod cefnogaeth ddigonol yn cael ei rhoi i gynghorwyr er mwyn iddynt wneud eu dyletswyddau. Hefyd rhaid i bob cyngor gael Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, sy'n dynodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac, yn gyffredinol, yn adrodd i'r cyngor am y gefnogaeth a roddir i'r cynghorwyr. Rhaid i'r Pwyllgor hwn gael ei gadeirio gan gynghorydd o'r wrthblaid.

Lluniwyd y polisi hwn er mwyn i gynghorwyr y tu allan i'r arweinyddiaeth - yr adran weithredol/cabinet - allu helpu i sicrhau bod y cyngor yn darparu lefelau derbyniol o gefnogaeth ar gyfer gwasanaethau aelodau, yn ogystal â threfnu craffu a phwyllgorau eraill.

### g) Absenoldeb Teulu

Am y tro cyntaf, mae gan gynghorwyr yng Nghymru yr hawl i gael absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mathau eraill o absenoldeb yn dilyn genedigaeth neu fabwysiadu plant. Yn y cyfnod cyn y Mesur, byddai absenoldeb cynghorydd yn cael ei drin yn negyddol, h.y. os oeddent wedi methu â dod i gyfarfod mewn chwe mis, tybiwyd eu bod wedi gadael eu sedd. Mae'r Mesur yn rhoi hawl glir i gynghorydd â phlentyn newydd i gymryd amser oddi wrth ddyletswyddau'r cyngor am hyd at chwe mis. Gan mai dim ond yn niwedd 2013 y daeth hyn i rym, mae'n rhy gynnar i ni wybod faint fydd yn manteisio ar yr hawl hon yn ogystal ag unrhyw effaith sylweddol a gaiff.

## ***Arolwg o Ymgeiswyr 2012***

Cafwyd 3,201 o ymatebion i gyd (oddeutu 35%) i'r arolwg[9] gan 21 awdurdod lleol (gohiriwyd etholiadau Ynys Môn tan 2013[10]). Mae modd gweld y rhan fwyaf o'r

[9] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/local-government-candidates-survey/?skip=1&lang=cy

canlyniadau ar dudalen 15, sy'n cymharu'r canlyniadau gydag arolygon eraill a gynhaliwyd yn rhannau eraill o'r DU.

Cadarnhaodd yr arolwg fod cynrychiolaeth annigonol iawn o gynghorwyr ac ymgeiswyr sy'n fenywod ar lefel cyngor sir a chyngor cymuned a bod mwy o gynghorwyr sydd dros 60 oed na dim un grŵp oedran arall.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod newid sylweddol mewn ambell gyngor o ran y rhaniad oed a rhyw. Gwelwyd yr oed cyfartalog yn cwympo yn Sir Fynwy a Phowys. Roedd mwy o fenywod yn aelodau o gyngor Casnewydd nag erioed o'r blaen, o gwmpas 40%. Gwelwyd mai gan gyngor Abertawe y mae'r aelod cabinet ieuengaf unrhyw le yn y DU, gyda'r aelod hwnnw yn 22 mlwydd oed.

Roedd arolygon blaenorol o gynghorwyr (ar lefel cyngor sir yn unig - a heb gynnwys ymgeiswyr aflwyddiannus) wedi'u cynnal ar ran y Gymdeithas Llywodraeth Leol, gyda dadansoddiadau ar wahân ar gyfer Cymru yn cael eu darparu i CLlLC. Ym 1999, dangosodd hyn fod 19.5% o'r cynghorwyr yng Nghymru yn fenywod. Cododd y ffigur hwnnw i 21.8% ar ôl etholiadau 2004[11]. Ni ddatgyfunwyd y wybodaeth ar gyfer Cymru yn dilyn etholiadau 2008 ond cynhaliodd y BBC[12] ei ymchwil ei hun a awgrymodd bod 22% o'r cynghorwyr yn fenywod. Felly mae'r ffigur o 28% yng nghanlyniadau'r arolwg ar gyfer 2012 yn dangos rhywfaint o gynnydd[13]. Bydd y ganran honno ychydig yn llai yn sgîl canlyniadau Ynys Môn, gyda dim ond tair menyw yn cael eu hethol o blith cyfanswm o 30 aelod, sy'n golygu cynnydd, ar y mwyaf, o 8 pwynt canran mewn 13 blynedd.  Os yw'r cynnydd yn parhau ar y gyfradd honno, ni fyddem yn gweld cynrychiolaeth gyfartal am 35 i 40 mlynedd arall.

---

[10] *Cynhaliwyd etholiadau llywodraeth leol ar Ynys Môn ym mis Mai 2013. Cynhaliwyd yr etholiadau ar ffiniau etholiadol newydd, gyda maint  y cyngor yn lleihau o 40 i 30 aelod a phatrwm y wardiau etholiadol yn newid o fod ag un aelod i fod â sawl aelod. Ymgeisiodd 107 o ymgeiswyr am y 30 sedd, ac roedd 19 ohonynt yn fenywod  O blith y 19, cafodd tair ohonynt eu hethol yn briodol i'r cyngor. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau'r arolwg ymgeiswyr yn 2014.*

[11] www.wlga.gov.uk/uploads/publications/932.pdf
[12] http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/7337718.stm
[13] Ffigur y Gymdeithas Newid Etholiadol yw 26%.

## ***Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP)***

Mae'r IRP[14] yn bodoli er 2008 ac, ers i'r Mesur gael ei gymeradwyo, mae gan y Panel y pŵer i bennu pa aelodau o awdurdodau lleol sy'n cael eu talu. Er nad yw'n glir i ba raddau y mae cydnabyddiaeth ariannol yn sbardun, mae'r Panel mewn sefyllfa i ddefnyddio'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol mewn ffyrdd a all helpu i leihau'r rhwystrau ariannol ar gyfer pobl sy'n sefyll mewn etholiad llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau economaidd presennol yn ei gwneud yn anodd iddynt wneud newidiadau mawr.

Ers sawl blwyddyn, mae aelodau'r prif gynghorau sy'n gorfod gofalu am blentyn neu oedolyn dibynnol wedi bod yn gymwys i gael lwfans gofal, hyd at uchafswm o £403 y mis. Ceir, fodd bynnag, dystiolaeth anecdotaidd, yn bennaf yn dilyn ymweliadau'r Panel ag awdurdodau lleol, fod ambell gynghorydd a allai fod yn gymwys yn gwrthod hawlio'r lwfans. Ymddengys fod dau beth yn eu hatal. Yn gyntaf, gall cynghorwyr eraill godi amheuon ynghylch a yw'r lwfans yn angenrheidiol o gwbl, yn aml ar y sail eu bod wedi llwyddo i ofalu am ddibynyddion heb lwfans penodol. Yn ail, mae'r cyhoeddusrwydd a roddir i gydnabyddiaethau ariannol a gaiff cynghorwyr ar ôl pob blwyddyn y Cyngor yn ddigon o gymhelliad iddynt hawlio llai, yn arbennig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Yn ystod ymweliadau'r Panel ag awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2013, mynegodd cynghorwyr bryder bod y ffactorau hyn, gyda'i gilydd, yn peri i gynghorwyr cymwys deimlo'n euog, ac o ganlyniad yn mynd yn groes i nod y lwfans gofal - sef annog y rheini a chanddynt ddibynyddion i gymryd rhan mewn llywodraeth leol.

## ***Ceisio am swydd etholiadol***

Sefydlwyd y "Gronfa Ceisio am Swydd Etholiadol ar gyfer Pobl Anabl" yn 2012 gan Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU ac mae'n parhau tan fis Mawrth 2014.

[14] http://wales.gov.uk/irpwsub/home/?skip=1&lang=cy

Mae'r gronfa yn cynnig grantiau unigol o rhwng £250 a £20,000 i bobl anabl sydd am gael eu hystyried i gael eu dewis yn ymgeiswyr mewn etholiad, neu sy'n bwriadu sefyll mewn etholiad.

Mae'r grantiau yn helpu i dalu am yr anghenion cefnogi ychwanegol sydd gan unigolion anabl sy'n gysylltiedig â'u hanabledd.

Mae'r gronfa ar gael i'r rheini sy'n gymwys i sefyll mewn swydd etholiadol yn unol â gofynion cyfraith etholiadol, sy'n gallu darparu tystiolaeth am eu hanabledd, ac sydd wedi bod yn gysylltiedig â, neu â diddordeb mewn, gweithgareddau dinasyddiaeth, cymunedol neu weithgareddau perthnasol eraill.

Yng Nghymru, mae'r gronfa ar gyfer etholiadau i Senedd y DU a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae Llywodraeth Cymru yn debygol o ystyried a ddylid cael cynllun tebyg yng Nghymru yn dilyn gwerthuso cynllun Llywodraeth y DU.

## ***Meiri Ifanc a Chabinetau i'r Ifanc***

Maes sawl cyngor sir wedi sefydlu cabinetau anffurfiol i'r ifanc ynghyd â meiri ifanc. Mae hyn yn rhan o fenter, a gefnogir gan Gyngor Ieuenctid Prydain,[15] i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu grymuso i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rhoddwyd sylw o ddifrif i'r pwnc hwn ym Mro Morgannwg[16].

Dylid nodi bod ambell gyngor cymuned wedi manteisio ar y cyfle i gyfethol cynrychiolwyr ifanc, yn unol â darpariaethau galluogi Mesur 2011. Gallai cynghorau ystyried hefyd a fyddent yn cymryd rhan mewn mentrau megis y rhaglen 'Youth on Boards'.

[15] http://www.byc.org.uk/uk-work/young-mayor-network.aspx

[16] http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/council/minutes,_agendas_and_reports/reports/scrutiny_ll/2013/13-01-21/youth_cabinet_and_mayor.aspx

**Pobl Ifanc ar Fyrddau**

Yn ystod haf 2013 dewisodd prosiect **Merched yn Gwneud Gwahaniaeth** grŵp o bobl ifanc addawol a oedd yn awyddus i wirfoddoli ar lefel uwch a chymryd rhan mewn rhaglen newydd, arloesol. Hyfforddwyd dros 15 o bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed gan roi iddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn Aelodau o Fyrddau neu'n Ymddiriedolwyr.

Ariannwyd y prosiect hwn ar y cyd gan GwirVol a Chyngor Prydeinig Cymru ac roedd yn agored i bobl ifanc o bob cwr o Gymru. Daeth cyfranogwyr o lefydd megis Abertawe, Caerdydd, Casnewydd, Aberdaugleddau, Port Talbot a Bro Morgannwg.

Roedd yr hyfforddiant a'r profiadau a roddwyd i'r bobl ifanc yn cynnwys hyfforddiant ar lywodraethu, hyfforddiant ar y cyfryngau, magu hyder ac ymweliad â'r Senedd ac adeilad y Pierhead dan ofal Tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd cyfle i'r bobl ifanc hyn wedyn gael profiad o sut beth yw bod mewn bywyd cyhoeddus drwy eistedd ar fyrddau fel arsyllwyr a chael eu mentora gan aelodau bwrdd profiadol. Gwelwyd enghreifftiau addawol gyda phobl ifanc ar fyrddau'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru a Chwaraeon Cymru, er enghraifft.

# Casglu Tystiolaeth

## *Tystiolaeth o ymchwil flaenorol*

Fel cyd-destun i adolygiad ein Grŵp Arbenigwyr, aethom ati i chwilio'n drylwyr drwy lenyddiaeth. Roedd hyn yn help i ychwanegu'r manylion pwysig i'r wybodaeth a gasglwyd yn dilyn ein galwad am dystiolaeth. Dangosodd Allen,[17] sut roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o roi'r gorau i fod yn rhan o lywodraeth leol ac, yn wir, i roi'r gorau i weithgarwch gwleidyddol yn gyfan gwbl. Gellid tybio bod hyn yn dangos bod y ffaith mai dynion sydd fwyaf blaenllaw ym myd gwleidyddiaeth yn gyfrifol am y diffyg apêl, yn ogystal â'r agwedd wrthwynebus, a'r bywydau domestig prysurach sydd gan fenywod yn aml. Mae mathau eraill o ymchwil yn awgrymu mai'r unig ffordd o fynd i'r afael â hyn oedd drwy sicrhau bod nifer fawr o fenywod yn cynrychioli, sydd fel arfer dros 30% o'r cyfanswm, fel yr hyn a gyflawnwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol.


Cynhyrchwyd yr adroddiad "Pŵer yng Nghymru: Merched ym Mywyd Cyhoeddus"[18], gan y Gymdeithas Newid Etholiadol (ERS), a dyma'r gwaith cynhwysfawr mwyaf diweddar sy'n edrych ar nifer y menywod mewn bywyd gwleidyddol yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2013, ac mae'n tynnu sylw at y ffaith nad oes dim un o'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn fenywod, mai dim ond 14% o gadeiryddion byrddau iechyd sy'n fenywod, dim ond 18.5% o Aelodau Seneddol Cymru sy'n fenywod, dim ond 21% o Banel Troseddu Dyfed Powys, Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n fenywod. Gwelwyd data tebyg iawn yn adroddiad diweddaru 2012 gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "Pwy sy'n rhedeg Cymru"[19], a oedd yn dangos maint yr her sy'n dal i fodoli ym mhob rhan bron o gymdeithas sifil.

Mae'r adroddiad yn rhestru cyfran y menywod ym mhob un o'r 22 Prif Gyngor. Yn Abertawe y gwelir y nifer uchaf gyda 39% o'i aelodau yn fenywod. Mae llai na 20% o aelodau chwe chyngor yn fenywod. Mae'r ffaith bod y ffigur uchaf hyd yn oed yn

[17] Allen, P. A., 2013. Last in, first out – Gendered patterns of local councillor dropout. *British Politics*, 8 (2), t. 207-224.

[18] http://wenwales.org/wp-content/uploads/Pwer-yng-Nghymru-2013-Merched-ym-Mywyd-Cyhoeddus.pdf
[19] http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru/llyfrgell/pwy-syn-rhedeg-cymru-2012/

llawer is na 50% yn dangos faint o waith sydd i'w wneud yng Nghymru. O leiaf nid oes modd dadlau mwyach bod y sefyllfa'n waeth o ran cydraddoldeb rhwng y ddau ryw yn yr hen ardaloedd diwydiannol. Er bod Merthyr Tudful a Blaenau Gwent yn dal i fod o dan 20%, mae gan gynghorau Rhondda Cynon Taf, Torfaen, sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, a Chastell-nedd Port Talbot fwy na 25%, ac mae gan gynghorau dinas Abertawe, Caerdydd ac, i raddau llai, Casnewydd, gyfrannau "cymharol" iach.  (37.5%, 36% a 26% yn y drefn honno). Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos ein bod yn fwy tebygol o weld cydbwysedd gwael rhwng y rhywiau mewn awdurdodau gwledig gyda chyfran uwch na'r cyfartaledd o gynghorwyr annibynnol. Mae llai na chwarter aelodau cyngor Ynys Môn, Ceredigion, sir Penfro, sir Ddinbych, Gwynedd a Sir Caerfyrddin yn fenywod (Yng Nghymru mae'r gyfran uchaf o aelodau Annibynnol ar y Brif lefel yn y DU).




Wrth gwrs, nid yw'r sefyllfa yn unigryw i Gymru. Nid dim ond mater o gydraddoldeb yw hyn. Canfu Wängnerud a Sundell[20] fod menywod sydd mewn swyddi etholiadol wedi arwain at wella'r sefyllfa i fenywod o'i gymharu â dynion o ran lefelau incwm, cyflogaeth amser llawn yn y sector cyhoeddus, a threfnu absenoldeb rheini ymysg rhieni.

[20] "Do politics matter?: Women in Swedish local elected assemblies 1970-2010 and gender equality in outcomes"

Yn etholiadau lleol yr Alban yn 2012, yn ôl Kenney a Mackay,[21] roedd llai na 25% o'r ymgeiswyr yn fenywod. Mae nifer y menywod a gafodd eu hethol i gynghorau lleol yr Alban wedi aros ar yr un lefel dros y blynyddoedd diwethaf ar oddeutu 22%. Mae ffigurau a gynhyrchwyd gan Hall, un o aelodau'r Grŵp Arbenigwyr, sy'n cymharu arolygon perthnasol, yn dangos bod Cymru, gydag amcangyfrif o 28% o'i haelodau yn fenywod, ar ei hôl hi o'i chymharu â Lloegr gyda 31% (wedi'i dalgrynnu) a'r Alban (30.4%) ond ar y blaen o'i chymharu â Gogledd Iwerddon (24%). Mae cynghorwyr Cymru ychydig yn hŷn. Mae cynrychiolaeth annigonol iawn o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ar gyngor pob sir. I bob golwg, mae cyfran eithaf cyffredin o oddeutu 15% o gynghorwyr anabl, er nid yw'n amlwg i ba raddau y mae hyn yn gysylltiedig ag oed.

## *Tabl Data o'r Arolwg Cymharol*

| | **Cymru** | **Lloegr** | **Yr Alban** | **Gogledd Iwerddon** |
|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | |
| Gwryw | **72%** | **68.5%** | **69.6%** | **76%** |
| Benyw | **28%** | **30.6%** | **30.4%** | **24%** |
| **Oed** | | | | |
| 18-29 oed | **2.1%** | **2.4%** | **3.2%** | **7%** |
| 30-39 oed | **4.7%** | **5.3%** | **6.7%** | **10%** |
| 40-49 oed | **11.3%** | **11%** | **16.6%** | **20%** |
| 50-59 oed | **25.4%** | **21.9%** | **28.3%** | **27%** |
| 60-69 oed | **38.8%** | **40.3%** | **38.2%** | **25%** |
| 70-79 oed | **17%** | **19.1%** | **6.7%** | **9%** |
| 80+ oed | **1%** | | **03.%** | |
| **Ethnigrwydd** | | | | |
| Gwyn | **99%** | **96.3%** | **96.6%** | **100%** |
| Affricanaidd | | | **0.6%** | |
| Asiaidd | | | **1.3%** | |
| Grŵp aml-ethnig /ethnig cymysg | **1%** | **3.6%** | **1.6%** | |
| **Crefydd** | | **HEB OFYN** | | |
| Cristion | **83%** | | **49.9%** | **100%** |
| Arall | **2%** | | **4.3%** | |
| Dim/dim ateb | **15%** | | **45.6%** | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | | **HEB OFYN** |
| Heterorywiol | **97%** | **84.2%** | | |
| Hoyw neu lesbiaidd | **3%** | **3.3%** | | |
| Deurywiol | | | | |
| Arall | **<1%** | **0.3%** | | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | | **12.2%** | | |

[21] http://genderpoliticsatedinburgh.wordpress.com/2012/04/18/more-of-the-same-women-and-the-scottish-local-government-elections-2012-5-2/

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Priod/partneriaeth sifil o'r un rhyw | | | **72.3%** | |
| **Cyflogaeth Cymwysterau** | | | | |
| Dim | **10%** | **9%** | **5.4%** | **16%** |
| Lefel 'O' TGAU/NVQ 1 /2 | **25%** | **12%** | **9.0%** | **16%** |
| Lefel A/ NVQ 3 | **10%** | **13.6%** | **12.2%** | **12%** |
| NVQ4 neu uwch | **54%** | **55.9%** | **55.8%** | **44%** |
| Cymhwyster proffesiynol/arall | | **8.3%** | **17.6%** | **11%** |
| **Cyflogaeth** | | | | |
| Cyflogaeth amser llawn/rhan-amser | **31%** | **30.5%** | | **60%** |
| Di-waith ac yn chwilio am waith | **2%** | **1.7%** | **4.5%** | |
| Hunangyflogedig | **19%** | **14.6%** | | |
| Wedi ymddeol am byth | **44%** | **47.2%** | **59.9%** | **29%** |
| Addysg amser llawn | | | **1.1%** | |
| Yn anabl/yn wael yn barhaol | | | **1.7%** | |
| Gofalu am y cartref neu'r teulu | **4%** | | **5.6%** | |
| Arall | | **6%** | **27.1%** | **11%** |
| **Iechyd** | | | | |
| Da iawn | | | **46.2%** | |
| Da | **82%** | | **42.7** | |
| Gweddol | **15%** | | **9.2%** | |
| Drwg | | | **1.9%** | |
| Gwael | **4%** | | **0** | |
| Anabledd/salwch tymor hir | | **14.1%** | | **14%** |
| **Cyfrifoldeb rhiant** | | | | |
| Plentyn dan 17 | **14%** | **12.4%** | **20.7%** | **19.0%** |
| | | | | |

**Cymwysterau addysgol uchaf cynghorwyr, 2012**

| **Lefel y cymhwyster** | **Cynghorwyr cymuned** | **Prif gynghorwyr** |
|---|---|---|
| NVQ 4 neu gyfatebol (Gradd, cymhwyster proffesiynol) | 51% | 54% |
| NVQ 3 neu gyfatebol (Lefel A) | 9% | 10% |
| NVQ 1 neu 2 neu gyfatebol (TGAU, lefel O, TAU) | 25% | 25% |
| Dim un o'r cymwysterau uchod | 14% | 11% |

Ffynhonnell: Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012

(Cynghorwyr cymuned, n=2311; Prif gynghorwyr, n=449)

Roedd Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn edrych ar gynghorau cymuned yn ogystal â'r cynghorau sir. Mae'r gwahaniaethau ar y lefel leol yn cynnwys mwyafrif o aelodau annibynnol ar gynghorau cymuned (54%) a'r blaid Lafur (17%) yn ail grŵp gwleidyddol mwyaf. Maent ychydig yn fwy tebygol o fod yn fenywod, yn ôl y canlyniadau, ar 32%. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o gyfleustra a mwy o ddyletswyddau o fewn oriau cyfyngedig yn gysylltiedig â'r lefel hon o lywodraeth leol. Ymhlith grwpiau'r pleidiau ar gynghorau cymuned, y Ceidwadwyr sy'n perfformio orau, ac mae 35% o'i haelodau yn fenywod. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng cynghorau cymuned a chynghorau sir o ran proffil oedran a chyfansoddiad ethnig. Gyda dim ond 1% o gynghorwyr cymuned yn datgan eu bod yn lesbiaid, hoyw neu'n ddeurywiol, ymddengys fod y cynghorau ar lefel sir yn fwy cynrychioladol o'r hunaniaethau hyn, ar 3%. Gwerthfawrogir, fodd bynnag, yn sgîl dewis yr unigolyn i ymateb, y gallai'r nifer ar gyfer hyn fod yn fwy.

## ***<u>Blaengaredd pleidiau gwleidyddol</u>***

Dangosodd Chaney, Mackay a McAllister[22] sut roedd nifer y menywod a gafodd eu hethol i'r Cynulliad Cenedlaethol o 1999 ymlaen wedi dechrau newid arddull gwleidyddiaeth yng Nghymru a'r agwedd tuag at hyn – deinameg y cyfeirir ato fel symud oddi wrth 'gynrychiolaeth ddisgrifiadol' at 'gynrychiolaeth gwirioneddol'. Maent yn dangos sut mae gweithredu cadarnhaol yn nau o'r prif bleidiau gwleidyddol wedi arwain at well cynrychiolaeth o fenywod. Ym 1999, defnyddiodd y blaid Lafur bolisi mentrus o "gefeillio", a oedd yn golygu bod menywod yn sicr o gael ymgeisio yn 50% o'r seddi lle gellid llwyddo.

Yn etholiad cyntaf y Cynulliad, rhoddodd Plaid Cymru fenywod ar frig y rhestrau rhanbarthol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, er mwyn sicrhau bod mwy o fenywod yn cael eu hethol. Bu'r ddau bolisi yn destun dadl o fewn y ddwy blaid ond gwelwyd, yn eu sgîl, welliannau sylweddol yn nifer y menywod a gafodd eu hethol yn Aelodau Cynulliad.

[22] http://orca.cf.ac.uk/3023/

Hyd yma, nid yw'r ddwy blaid arall wedi defnyddio camau gweithredu cadarnhaol. Mae Plaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ffurfio Grŵp Gweithredu Amrywiaeth Cymru, gan ddwyn ynghyd amrywiol grwpiau cydraddoldeb o fewn y blaid. Byddant yn astudio canlyniadau Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol fel rhan o waith paratoi eu strategaeth er mwyn gwella amrywiaeth yn etholiadau 2017.

Maent yn dweud mai'r tri phrif beth sy'n rhwystro menywod rhag cymryd rhan yw amseroedd cyfarfodydd, a oes gofal plant ar gael ac awyrgylch cyfarfodydd cyngor lle mae dynion fwyaf blaenllaw. Ond maent yn cynnig canllawiau a chefnogaeth i ymgeiswyr newydd drwy gyfrwng "Diwrnodau Ysbrydoli". Ar ben hyn, maent yn gobeithio ceisio nodi achosion o "ragfarn ddiarwybod" a chael gwared ar hyn yn y broses dethol. Ond nid ydynt yn cefnogi cwotâu na ffurfiau eraill ar wahaniaethu cadarnhaol o blaid grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Roedd Plaid Cymru o'r farn mai'r prif beth sy'n atal ymgysylltiad yw'r diffyg gwybodaeth yn gyffredinol am rôl cynghorydd a'r agwedd gyffredinol at wleidyddion a gaiff eu hethol. Maent hwy o'r farn mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn yw drwy addysgu pobl ifanc am wleidyddiaeth, fel rhan o'r cwricwlwm. Maent hefyd yn cynnig ymgysylltiad uniongyrchol â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl dan anfantais. Mae'n bosibl y byddai'r costau a'r anawsterau logistaidd sy'n gysylltiedig â chynnal ymgyrch, ac ar ôl yr etholiad hefyd, yn ddigon i atal pobl anabl, er enghraifft, rhag ymgeisio.

Mae Plaid hefyd yn credu y byddai System Cynrychiolaeth Gyfrannol yn rhoi mwy o gyfle i gefnogi amrywiaeth drwy restrau Pleidiau.

Yn y cyfnod yn arwain at etholiadau 2012, ymrwymodd plaid Lafur Cymru yn bendant i gynyddu cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol, gan ofyn i bleidiau lleol (ar sail awdurdod lleol) i lunio cynlluniau clir ynghylch sut y dylid cyflawni hyn.

Gwelwyd gwelliant sylweddol mewn rhai ardaloedd yn sgîl y cynlluniau lleol ond cred y blaid Lafur fod yn rhaid cael cynrychiolaeth o fenywod ar fwy na dim ond ar seddi ymylol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth sefydlog dros gyfnod cylchoedd etholiadau (sy'n hanfodol er mwyn symud ymlaen i rolau uwch a rolau arwain).

Dywedodd y blaid hefyd fod adborth gan aelodau sy'n fenywod yn awgrymu nad oedd gofynion cynrychiolaeth ar lywodraeth leol yn gydnaws ag ymrwymiadau gwaith a/neu deulu. Maent yn honni bod ganddynt enghreifftiau o fenywod sy'n gymwys iawn yn dewis peidio â chynnig eu hunain i gael eu dewis oherwydd eu hymrwymiadau teuluol ac oherwydd eu bod yn credu na fyddai'r ymrwymiad i fod yn ymgeisydd ac yn gynghorydd yn gydnaws â chyfrifoldebau eraill.

Roedd y blaid Lafur yn teimlo bod angen mesurau arbennig i gefnogi cynghorwyr a chanddynt gyfrifoldebau teulu a gofalu, a bod angen creu diwylliant a disgwyliad gwahanol ei bod yn bosibl bod yn gynrychiolydd effeithiol a bodloni ymrwymiadau ehangach. Maent yn credu bod angen cefnogaeth a gwelliant parhaus er mwyn i ragor o fenywod allu mynd am rolau uwch mewn llywodraeth leol a bod angen i bob plaid ddathlu a chanmol y gwelliant hwn.

Mae'r blaid Lafur hefyd yn sôn am y gefnogaeth a'r anogaeth a roddir i ymgeiswyr posibl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig ac er bod nifer y bobl hyn yn isel ar y cyfan fel canran gyffredinol, roedd yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'i gymharu â lefelau blaenorol. Maent yn dweud y bydd y sylfaen hon o gynrychiolaeth well yn cael ei defnyddio i geisio denu mwy o aelodau o bob rhan o gymunedau o bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac i barhau i wella cynrychiolaeth mewn llywodraeth leol ac mewn mannau eraill o gynrychiolaeth.

## ***Ein tystiolaeth ein hunain***

Ym mis Medi 2013, ysgrifennodd y Grŵp at sawl unigolyn a sefydliad perthnasol (**gweler Atodiad 3**), yn rhoi gwybod iddynt am bwrpas y Grŵp ac yn gofyn iddynt am eu barn am sut y gellid gwella'r Arolwg Ymgeiswyr a sut y gellid cael mwy o ymatebion iddo. Gofynnwyd iddynt hefyd beth, yn eu barn hwy, oedd y prif bethau a oedd yn rhwystro amrywiaeth mewn llywodraeth leol a beth y gellid ei wneud i'w goresgyn.

Cafwyd 20 ymateb i gyd a rhestrir yr ymatebwyr yn **Atodiad 4**. Yn gryno, dyma'r prif faterion a godwyd:

1. *Gwella'r arolwg*

Un ymateb cyffredin oedd nad oedd yr Arolwg yn rhoi sylw i'r ffaith bod unigolion yn ystyried ymgeisio - neu wedi ystyried, o bosibl - ond wedi penderfynu peidio â sefyll ac y dylid holi'r bobl hyn hefyd er mwyn gweld beth oedd eu rhesymau dros beidio â chynnig eu hunain yn y pendraw neu beidio â chael eu dewis yn ymgeisydd. Bwriedir i'r arolwg, yn y lle cyntaf, fod yn ymarfer hydredol, yn cymharu'r carfanau mewn gwahanol etholiadau, gydag effeithiolrwydd polisïau at amrywiaeth yn cael ei ddangos yn y newidiadau posibl i bob carfan. Fodd bynnag, byddai ymchwil ategol i'r ffactorau sy'n atal pobl rhag ymgeisio yn fuddiol dros ben.

Yn ei thystiolaeth, awgrymodd Plaid Cymru y dylid holi ymgeiswyr ynghylch yr hyn a roddodd anogaeth iddynt sefyll. Cynigiwyd hefyd y dylai data meincnodi (h.y. canlyniadau arolwg 2012) fod ar gael i'r sawl sy'n cael ffurflen yr arolwg nesaf er mwyn iddynt ddeall pwrpas yr ymchwil yn well.

Yn olaf, cynigiodd ambell ymatebydd y dylid ehangu'r ymchwil ynghylch yr arolwg drwy ychwanegu cyfweliadau dros y ffôn neu wyneb-yn-wyneb. Byddai hyn yn rhoi'r fantais o ddarparu data ansoddol i wella'r arolwg, ond byddai hefyd yn ychwanegu at y gost. Nid yw ychwaith yn berthnasol i brif nod yr arolwg - i weld newid dros amser - na fydd, o bosibl, yn cael ei weld yn iawn nes caiff yr arolygon eu cynnal sawl gwaith.

Ond, gallai ymarfer o'r fath arwain at wella ymateb a nodi esiamplau, a gellid cyhoeddi astudiaethau achos yr esiamplau hynny ar-lein fel rhan o ymarfer i ennyn diddordeb ymgeiswyr posibl yn y dyfodol.

*Gwella'r gyfradd ymateb*

Nodwyd yn gryf y byddai'n well pe bai'r arolwg yn cael ei gynnal ar-lein. Mae'n bosibl y byddai hyn, ynghyd â chyhoeddi'r arolwg adeg cofrestru enwebiadau yn hytrach nag ar ôl etholiadau, yn gwella'r cyfraddau ymateb a, fwy na thebyg, yn gwella ansawdd y data - byddai'n osgoi'r posibilrwydd o ddiffyg diddordeb ar ôl canlyniadau'r etholiad.

Mae'n bosibl y byddai angen diwygio deddfwriaeth er mwyn sicrhau hyn, gan fod y Mesur yn pennu bod yr arolwg yn cael ei gynnal ar ôl yr etholiadau. Wrth ddosbarthu'r arolwg cyn yr etholiadau, naill ai'n electronig neu fel arall, byddai hyn yn golygu cael gafael ar wybodaeth sydd, a bod yn fanwl gywir, yn eiddo i'r Swyddog Canlyniadau yn hytrach na'r awdurdod lleol, ac mae cymhwysedd y Cynulliad wedi'i gyfyngu'n fawr iawn yng nghyd-destun Swyddogion Canlyniadau. Fodd bynnag, mae amser ar ôl i ystyried sut y gellid rhoi'r gwelliannau hyn ar waith, gan ddefnyddio proses deddfwriaethol os bydd angen.

Mae'n ddigon posibl y bydd yn haws yr eildro i ymgysylltu ag awdurdodau lleol neu eu harweinwyr er mwyn annog ymatebion. Roedd angen trefnu'r arolwg cyntaf yn fuan iawn ar ôl deddfu'r Mesur ac ychydig o amser oedd i ennill "calon a meddwl" swyddogion ac aelodau etholedig.

Yn olaf, roedd yn amlwg o'r ymatebion gan wahanol awdurdodau lleol fod cael yr Uned Ddata Llywodraeth Leol i gynnal yr arolwg ar eu rhan wedi cael effaith gadarnhaol. Mae manteision amlwg wrth ddefnyddio ymchwilwyr ac ystadegwyr proffesiynol, yn enwedig wrth anfon negeseuon atgoffa, er enghraifft, i wella cyfraddau ymateb.

## *Defnyddio'r arolwg*

Roedd yn amlwg o'r ymatebion a gafwyd nad oes fawr o feddwl wedi'i roi eto i sut y gallai'r awdurdodau lleol eu hunain ddefnyddio eu canlyniadau lleol. Fodd bynnag, roedd arwyddion y gallai hyn newid yn y dyfodol. Gan fod y ffocws wedi symud erbyn hyn at y cynghorydd anweithredol yn sgîl y Mesur, gyda'i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gallai data fod yn ddefnyddiol wrth baratoi Cynlluniau Cydraddoldeb. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint hyn yn eu tystiolaeth i'r Grŵp.

Hefyd gellid gwella'r ffordd y mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyflwyno. Bydd llawer o hyn yn cael ei gyflawni drwy gael dau arolwg gwahanol - un ar gyfer ymgeiswyr cyngor Sir ac un arall ar gyfer ymgeiswyr cyngor cymuned. Ond gellir gwella hyn drwy wahaniaethu mwy rhwng y rheini sy'n cael eu hethol a'r rheini heb eu hethol. Drwy wneud hyn, gellid cyflwyno newid hydredol yn yr ymgeiswyr a'r rheini sy'n cael eu hethol.

Os bydd nifer yr ymatebion yn caniatáu, gellid dadansoddi data'r arolwg yn fanylach hefyd. Gan fod pleidiau gwleidyddol yn newidyn pwysig pan ddaw'n fater o gymryd rhan, gall fod yn ddefnyddiol, er enghraifft, i ddadansoddi lefelau'r ddau ryw a lefelau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ôl pleidiau gwleidyddol i weld yr amrywiad. Gellid defnyddio hyn, wedyn, i nodi arferion da o fewn y blaid ac i annog pleidiau sydd â chynrychiolaeth wael o ran y ddau ryw/pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i asesu eu proffil a'u sefyllfa eu hunain.

## 2. *Mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cyfranogi*

Cafwyd gwybodaeth lawer mwy gwerthfawr pan ofynnwyd i ymatebwyr feddwl am yr hyn sy'n achosi cynrychiolaeth annigonol a beth y gellid ei wneud i ddatrys y broblem. Mae ymrwymiad amser yn amlwg yn un o'r prif broblemau, naill ai oherwydd cyfrifoldebau domestig/gofalu neu gyflogaeth. Ceir tystiolaeth o arolygon cenedlaethol eraill, yn benodol arolwg cynghorwyr Lloegr 2010, mai gan gynghorwyr o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig y mae'r lefel fwyaf o gyfrifoldebau gofalu (30.5% o'r ymatebwyr perthnasol).

Mae llawer o fenywod yn teimlo nad yw'n bosibl iddynt gael cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau a dyletswyddau cynghorydd. Yn yr un modd, mae llawer sy'n gweithio yn teimlo na allent gael digon o amser o'r gwaith. Wrth roi mwy o hysbysrwydd i'r gyfraith ynghylch hawliau cyflogaeth, y lwfans gofal sydd ar gael, yr angen i gynghorau holi eu haelodau ynghylch yr amser gorau i gynnal cyfarfodydd a chyflwyno'r ddarpariaeth mynychu o bell, byddai'r rhain i gyd yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Yn fwy na dim, mae'r hyn a welir fel diffyg ymyrraeth gan bleidiau gwleidyddol i sicrhau bod amrywiaeth ehangach o ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig menywod, mewn seddi lle gellid llwyddo, yn cael ei ystyried yn un o'r prif rwystrau. Yn ogystal â hyn, mae'r portread negyddol o gynghorwyr – a gwleidyddion eraill –gan y cyfryngau yn ddigon i annog pobl i beidio ag ymgeisio. Cyplyswch hyn â'r lefel is o hyder a hunan-barch yn gyffredinol a phrinder esiamplau, ac nid yw'n syndod bod prinder ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cynnig eu hunain.

Yn olaf, cyfeiriwyd yn aml at gydnabyddiaeth ariannol. Ar y naill law, ceir stigma o du'r cyhoedd y dyddiau hyn ynghylch tâl gwleidyddion (ac nid yw hyn yn gymorth o gwbl wrth geisio annog pobl i hawlio lwfans gofal) ac ar y llaw arall credir bod yr incwm a gaiff cynghorwyr yn annigonol i demtio pobl i'w hymrwymo eu hunain i fod yn gynghorydd am sawl blwyddyn ar gost broffesiynol a phersonol.

### *Arfer da o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth*

Roedd yn glir o'r ymatebion bod llawer yn teimlo y dylai pleidiau gwleidyddol wneud mwy o ymdrech fwy effeithiol i wella amrywiaeth drwy ddewis ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae uwch aelodau Plaid Cymru wedi ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn creu a gweithredu system fentora. Hefyd, mae'r blaid wedi ceisio hysbysebu'n agored am ymgeiswyr, gyda'r nod o recriwtio gwaed newydd, yn enwedig o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Yn y cyfnod yn arwain at yr etholiadau nesaf, mae plaid Lafur Cymru yn bwriadu ailddatgan ei hymrwymiad i wella cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol yn sylweddol ac i gyflwyno mecanweithiau a gweithdrefnau mewnol cadarn er mwyn cyflawni hynny.

Dywedodd rhai fod y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol sy'n cael ei ddefnyddio ledled Cymru erbyn hyn wedi annog ymgeiswyr iau i sefyll – er gwaethaf honiadau i'r gwrthwynebiad – oherwydd bod rhywfaint o sicrwydd am yr incwm ar gyfer dyletswyddau cynghorydd dros gyfnod y cyngor. Rhaid cyplysu hyn â gwybodaeth lawn i ymgeiswyr posibl am eu hawliau a beth i'w ddisgwyl wrth fod yn gynghorydd fel y nodir yng nghanllawiau CLlLC i ymgeiswyr.[23]

Mae llwyddiant cynlluniau cysgodi, yr un mwyaf nodedig o'u plith yw'r cynllun Camu Ymlaen Cymru (gweler uchod), wedi annog y rheini o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i benderfynu cynnig eu hunain – ac mewn rhai achosion llwyddo – i ymgeisio ar gyfer sedd ar y cyngor neu yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae

[23] http://www.wlga.gov.uk/cynghorydd-canllawiau-i-ymgeiswyr-etholiadau-lleol-cymru-2012

sefydliadau megis Merched yn Gwneud Gwahaniaeth[24] yn mynd ati'n fwriadol i geisio paratoi menywod ar gyfer swyddi mewn bywyd cyhoeddus a'r gobaith yw y bydd y rhain yn treiddio i swyddi mewn llywodraeth leol.

Ers 2012, gwelwyd cynnydd derbyniol yn nifer y menywod a chynghorwyr iau a benodwyd i swyddi cabinet mewn awdurdodau lleol. Mae hyn yn helpu i greu esiamplau mwy cadarnhaol.

### *Beth, o bosibl, fyddai'n gwella cyfranogiad?*

Roedd y cwestiwn olaf yn gofyn i ymgyngoreion gynnig syniadau ynghylch beth fyddai'n gwella amrywiaeth. Roedd yr ymatebion yn cynnwys arferion gorau megis: gwneud yn siŵr bod mentrau yn targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn amrywiol ffyrdd. Ond yr ymateb cryfaf un oedd cydnabod bod llawer o'r atebion yn nwylo pleidiau gwleidyddol, os oeddent yn barod i'w hymrwymo eu hunain i hyrwyddo ymgeiswyr penodol yn gadarnhaol. Mae hyn yn debygol oherwydd mai cynrychiolaeth fach o ymgeiswyr annibynnol a geir yn sawl rhan o Gymru, a fawr o ddiwylliant lle mae ymgeiswyr yn sefyll y tu ôl i faner plaid. Mae hyn yn golygu bod y prif bleidiau gwleidyddol mewn sefyllfa allweddol.

Yn benodol, pe byddai sawl menyw yn cael eu cynnwys fel ymgeiswyr ar restr plaid mewn wardiau etholiadol lle mae sawl aelod a lle gellid llwyddo, byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol.

[24] http://www.womenmakingadifference.org.uk/

## Themâu o'r Dystiolaeth

O bryd i'w gilydd, cyflwynir y pwynt bod y ffaith bod cymaint o gynghorwyr yn ddynion mewn llywodraeth leol yn gallu cymell menywod i beidio ag ymgeisio. Gallai cynrychiolaeth fwy amrywiol arwain at benderfyniadau fwy effeithiol sy'n effeithio ar gymunedau lleol.

Ar lawer ystyr, roedd y strwythurau gwleidyddol a gyflwynwyd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gan roi'r broses cabinet yn lle'r system bwyllgor, wedi rhoi pwyslais ar rolau y byddai menywod sy'n wleidyddion yn fwy cyfforddus yn eu gwneud o bosibl. Wrth gael gwared ar y pwerau penderfynu, i raddau helaeth, o'r cynghorau llawn a'r pwyllgorau mawr (drwy eu rhoi i'r cabinet), dylai hyn leihau unrhyw achos o wleidyddiaeth ymosodol. Gyda mwy o bwyslais ar rôl gwestiyngar y broses craffu, sy'n aml yn gofyn am gydweithrediad ar draws pob plaid, ynghyd â phwyslais ar waith ward cynghorwyr fel "hyrwyddwyr cymuned", bydd hyn yn siŵr o ddwyn llai o foddhad i'r cynghorydd traddodiadol a oedd yn mwynhau "hynt a helynt" siambr y cyngor. Mae'n fwy cyffredin clywed cwynion am aneffeithioldeb y broses craffu gan gynghorwyr a oedd wedi arfer â'r system bwyllgorau yn y gorffennol.

Yn eu sioe deithiol yn 2013, ymwelodd IRP â 22 Prif Gyngor (yn ogystal â pharciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub). Mae'r Panel wedi tynnu sylw at y ffaith mai dim ond dwy fenyw oedd yn arwain cynghorau a 4 yn ddirprwyon. Roedd gan 34 o fenywod a oedd yn gynghorwyr swyddi ar y cabinet ond mewn pedwar awdurdod nid oedd yr un fenyw arnynt.

Ond nododd y Panel fod mwy o ymgeiswyr iau mewn ambell awdurdod. Roedd yr aelod cabinet ieuengaf yn y DU ar gyngor Abertawe, ac roedd gan gyngor Ceredigion gadeirydd a oedd yn dal yn ei ugeiniau. Roedd arweinydd cyngor Abertawe wedi caniatáu i gynghorwyr (o'r grŵp mwyafrifol) i ymgeisio am swyddi arwain, gyda CV a chyfweliadau fel y gwelir mewn proses ymgeisio arferol. Roedd hyn wedi gweithio o blaid rhai ymgeiswyr iau a menywod: cael eu dyrchafu am eu bod yn ei haeddu, yn hytrach na thrwy "rwydwaith o griw bach dethol".

Po fwyaf y gall cynghorau benodi cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi lle gallant fod yn esiampl - a pho fwyaf y cânt eu defnyddio i ryngweithio â'r cyhoedd, y mwyaf tebygol yr ydym o weld ymgeiswyr newydd yn dilyn

eu hesiampl. Mae'r enghreifftiau canlynol gan ddau aelod o Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn dangos beth y gellid ei gyflawni.

**SUZANNE PADDISON**

Dechrau'r daith i mi oedd dod yn aelod o blaid wleidyddol. Dechreuais fod yn weithgar yn fy etholaeth, gan helpu mewn ymgyrchoedd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, yr Aelod Seneddol, y refferendwm ynghylch Cynulliad Cymru, ac Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Fe wnes i hyn dros gyfnod o sawl blwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, gofynnwyd i mi a fyddwn i'n hoffi bod yn llywodraethwr ysgol. Dywedodd un cynghorydd fy mod yn addas a chefais fy mhenodi i fod yn llywodraethwr mewn ysgol gynradd leol. Ar ôl dwy flynedd, ymddiswyddodd Cadeirydd y Llywodraethwyr a daeth pennaeth yr ysgol ataf i holi a fyddwn i'n ystyried ymgeisio am y swydd. Fe wnes i ymgeisio a chefais fy ethol ar ôl hynny. Roeddwn yn Gadeirydd nes i'r ysgol gael ei chau fel rhan o gynllun Strategol yr Awdurdod Lleol i Wella Ysgolion. Roedd y profiad hwn yn ddiddorol dros ben ac yn werth chweil, ac roedd hyn o gymorth pan oeddwn yn ceisio cael fy newis i fod yn ymgeisydd yn yr etholiadau lleol. Roedd llawer o'r bobl yn yr ardal leol yn fy adnabod drwy fy nghysylltiadau â'r ysgol.

Nid oeddwn wedi bwriadu mynd am swydd etholiadol. Pan oeddwn yn dosbarthu taflenni un diwrnod, gofynnodd yr AC lleol a oeddwn erioed wedi ystyried bod yn gynghorydd lleol. Roedd yr hedyn wedi'i blannu a bues i'n pwyso a mesur y mater am beth amser, nes ryw 12 mis cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, pan atebais neges e-bost gyffredinol yn gwahodd pobl a oedd â diddordeb mewn sefyll i ddod i noson dysgu ffeithiau. Fe es i'r cyfarfod a theimlo bod hyn yn iawn i mi. Ymgeisiais i gael fy newis, llwyddais, ac yna cefais fy ethol ym mis Mai 2012. Nid oeddwn i'n teimlo bod y ffaith fy mod i'n fenyw wedi bod yn anfantais o gwbl i mi wrth ymgeisio. Wrth ymgyrchu, roeddwn i'n meddwl bod y cyhoedd yn gwbl agored i'r syniad o gael menywod yn gynghorwyr. Byddwn yn awgrymu i unrhyw fenyw sy'n meddwl am fod yn rhan o unrhyw fath o fywyd cyhoeddus i beidio â gadael i'r anghyfarwydd godi ofn arni, ond i 'fynd amdani'.

Pe byddwn yn gorfod awgrymu sut gallai cymdeithas ennyn mwy o fenywod i fynd am swyddi etholiadol, byddwn yn dweud - dylai mwy o fenywod sydd eisoes wedi cyflawni hyn ofyn i fenywod eraill a fyddai ganddynt ddiddordeb. Yn fy achos i, dyna'r oll a oedd ei angen i'm hannog. Mae'n swnio'n or-syml ond mae'n rhwydd ei wneud. Fe wnaf fy ngorau i awgrymu hyn i unrhyw fenyw y byddaf yn cwrdd â hi.

Yn ddiweddar, gwnes benderfyniad mwy i sefyll fel ymgeisydd seneddol ar ôl i'r AS presennol gyhoeddi na fyddai'n ailsefyll. Roedd y penderfyniad hwn yn anoddach o lawer. Yn y sefyllfa hon, mae bod yn fenyw yn gwneud gwahaniaeth i bobl, yn fy marn i. Rwyf wedi bod yn weithgar iawn yn fy mhlaid ers dod yn gynghorydd. Fi w cydlynydd ymgyrchoedd yr etholaeth, ond rwy'n byw mewn ardal sydd yn 'sedd ddiogel'. Mae'r ffaith hwn yn golygu bod gan lawer o ddynion o'r tu allan i'r etholaeth ddiddordeb hefyd. Rwy'n teimlo bod y 'rhwydwaith criw bach dethol' yn dod i'r amlwg wrth ymladd am seddi seneddol, yn fwy nag yn yr etholiadau lleol. Er gwaethaf hyn, rwy'n bwriadu gwneud fy ngorau glas a gweld beth a ddaw. Rwyf wedi gorfod edrych yn ofalus arnaf fi fy hun a cheisio darbwyllo fy hun fy mod gystal ymgeisydd â'r dynion.

Amser a ddengys os byddaf yn llwyddo yn hyn.

Gobeithio y bydd fy stori, er nad yw wedi dod i ben eto, yn ysbrydoli menyw arall yn rhywle i gymryd y cam cyntaf hwnnw ymlaen a – mynd amdani.

**KAREN ELIZABETH PEARSON**

A minnau wedi gweithio ers blynyddoedd o Gartref Gofal Glyn Dulais, yng Nghrynant, fel rheolwr cyflenwi gyda Llywodraeth Leol, dechreuais ddatblygu cysylltiadau cryf gyda'r gymuned. Ar yr un pryd roeddwn yn drysorydd Cybiau a Sgowtiaid Crynant am sawl blwyddyn. Roedd hyn yn rhoi syniad i mi o'r anawsterau roedd llawer o deuluoedd yng nghefn gwlad yn eu hwynebu wrth geisio ymdopi â bywyd bob dydd a gwaith, yn enwedig menywod, a fyddai'n aml yn rhoi cefnogaeth ac anogaeth i mi ac i'w gilydd, yn ogystal â bod yn ysbrydoliaeth.

Penderfynais sefyll i fod yn Gynghorydd Sir oherwydd fy mod i, fel llawer o deuluoedd eraill, wedi dod ar draws sawl rhwystr mewn bywyd, yn enwedig y rheini a wynebir gan fenywod, wrth geisio magu teulu a datblygu gyrfa, yn bennaf at ddibenion ariannol. Rwy'n credu y gall y llywodraeth, yn arbennig llywodraeth leol, helpu gyda hyn. Rwy'n credu hefyd fy mod i'n gallu dangos trugaredd yn ogystal â meddu ar y sgiliau bwyd angenrheidiol i gynrychioli'r cymysgedd amrywiol o unigolion (hyd yn oed mewn cymuned fach fel Crynant) a'r anawsterau a wynebant. Er bod Crynant yn cael ei ystyried yn ardal eithaf cefnog, mae llawer o unigolion yn gorfod delio â'r dylanwad sydd gan lywodraeth leol dros eu bywydau o ddydd i ddydd, mewn meysydd megis lles cymdeithasol, iechyd ac addysg.

Rydw i wedi bod yn aelod o'r undeb llafur ers gadael yr ysgol ac mae aelodau fy nheulu wedi bod yn weithgar mewn gwleidyddiaeth leol. Yn sgîl hyn awgrymodd rhywun fy mod yn sefyll i fod yn Gynghorydd Sir yng nghyngor Castell-nedd Port Talbot, gan gynrychioli Ward Crynant, ac rwyf wedi gwneud hynny dros y 18 mis diwethaf. Yr hyn sydd wedi bod o gymorth yn y sefyllfa hon, yn rhannol, yw fy nghyflogwr, Barnardo's, sydd wedi gadael i mi barhau i weithio'n hyblyg o gwmpas eu hanghenion hwy. Mae hyn yn arwydd clir o'r oes wrth i gyflogwyr sylweddoli mai menywod yw rhai o'u gweithwyr gorau a bod angen i batrwm gweithio menywod gydweddu â bywyd eu teuluoedd, rhywbeth sy'n arfer cyffredin yn y trydydd sector. Rwy'n credu bod y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn dechrau defnyddio'r arfer hwn hefyd.

Mae menywod yng nghefn gwlad yn wynebu llawer o rwystrau, yn arbennig mewn gwleidyddiaeth gan mai brwydr rhwng y dynion sydd wedi bod ers blynyddoedd lawer. O ganlyniad nid yw pobl yn cymryd menywod o ddifrif bob tro ac nid ydynt ychwaith yn cael y cyfleoedd a roddir i ddynion. Ond, gallaf ddweud fod fy Ward (yn ogystal â'r Blaid Lafur yn y sir) wedi rhoi llawer iawn o gefnogaeth ac anogaeth. Heb y cymorth hwnnw, mae'n bur debyg na fyddwn yn ymhél â gwleidyddiaeth heddiw.

Er fy mod yn meddwl fy mod wedi creu effaith ar lefel leol, ac ystyried y cyfnod byr rwyf wedi cynrychioli fy nghymuned, rwy'n teimlo bod gen i lawer mwy i'w gynnig ar lefel Ranbarthol neu Genedlaethol. Gobeithio y byddaf i, fel llawer o fenywod eraill, yn cael y cyfle i ddefnyddio fy sgiliau a'm profiad helaeth i helpu'r rheini sydd fwyaf ei angen.

## ***Rhwystrau i'w goresgyn***

Y rhwystr mwyaf heb os nac oni bai yw bod llai o weithgarwch gwleidyddol yn gyffredinol yn ogystal â dieithrio oddi wrth hynny. Mae llai o bobl nag erioed yn aelodau gweithgar o'r prif bleidiau ac mae hyn wedi effeithio mewn sawl ffordd. Os nad oes digon o bobl ifanc yn ymuno, mae hynny'n golygu y bydd oedran yr aelodaeth yn hŷn. Mae llai o aelodau hefyd yn golygu bod cronfa lai i ddewis ymgeiswyr ohoni. Mae nifer fach o aelodau yn golygu y bydd y cyfarfodydd yn fach, ac y bydd y rolau trefnu yn syrthio ar ysgwyddau nifer fach o bobl. Gallai'r rheini ddechrau diflasu neu gael eu dadrithio. Mae'n golygu hefyd bod llai o bobl ifanc yn cael eu magu mewn teuluoedd sy'n weithgar yn wleidyddol.

Mae rhywbeth da a drwg ynghylch y gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael i gynghorwyr. Mae'r cyflog sylfaenol o £13,175 yn gymharol isel os dyma'r unig ffynhonnell incwm. Ond mae'n ad-daliad rhesymol os ystyrir bod rôl sylfaenol cynghorydd (fel y mae'r IRP yn ei hystyried) yn rhan-amser ac y gallai'r tâl felly fod yn atyniadol i ymgeisydd sydd â ffynhonnell incwm arall. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon i ddenu pobl i roi'r gorau i'w gwaith, yn sicr nid yw'n ddigon i wneud iawn am effeithio ar ddilyniant eu prif yrfa ac nid yw'n ddigon uwch na lefel y budd-daliadau i rywun sy'n cael budd-dal i fod yn gwbl ddibynnol ar y cyflog sylfaenol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl bod cynghorwyr sy'n cael cyflog uwch yn ennill cymaint drwy waith fel cynghorydd ag y byddent, neu y byddent wedi, wrth weithio. Mewn rhai achosion, fel yn achos arweinydd cyngor mawr neu ganolig ei faint, mae'n bosibl fod y cyflog yn uwch na'r hyn y gallent fod wedi ennill – neu'n debygol o fod wedi ennill – mewn gwaith y tu allan i'r cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldebau cynghorwyr mewn swyddi arwain. Wedi dweud hyn, nid yw cyflogau o'r fath yn ddiogel, ac mae'n bosibl i arweinwyr ac aelodau cabinet gael eu symud o'u swyddi 'dros nos' gan golli'r rhan fwyaf os nad y cyfan o'u cyflog gyda'r cyngor heb y warchodaeth a roddir i wleidyddion amser llawn eraill (megis Aelodau Cynulliad neu Aelodau Seneddol) nac ychwaith y tâl dileu swydd a roddir i weithwyr.

Gydag adroddiad Williams yn cyfeirio at leihau nifer y cynghorwyr, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r IRP ail-werthuso'r lwfansau sydd ar gael i gynghorwyr.

Ond mae ambell fenyw sy'n gynghorydd wedi dweud bod y gydnabyddiaeth ariannol yn ad-daliad atyniadol os oes modd iddynt wneud dyletswyddau cynghorydd yn ogystal â'u cyfrifoldebau domestig a/neu gyfrifoldebau cyflogaeth arall.

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr yn cynnwys lwfans gofal o hyd at £403 y mis. Gall hyn fod yn help sylweddol i aelodau sy'n gorfod talu am ofal plant. Yn anffodus, fel yr adroddir gan yr IRP, gall hawlio hyn - sy'n cael ei gofnodi a'i gyhoeddi wedyn fel y mae'n rhaid ei wneud gyda holl gydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr – fod yn ddigon i atal pobl. Mae llawer o gyhoeddusrwydd wedi'i roi i achosion lle mae'r cynghorwyr yn cael eu cyhuddo o gamddefnyddio'r lwfans. Nid yw'r lwfans ar ei ben ei hun yn golygu bod cyfleusterau gofal plant priodol ar gael, wrth gwrs.

Nid dim ond menywod sy'n gynghorwyr sy'n cael hawlio'r lwfans gofal, wrth gwrs, ac mae sawl dyn sy'n gynghorydd wedi ei hawlio ers iddo gael ei gyflwyno yn 2002. Ni ddylid awgrymu mai bwriad y cyfleuster hwn, ynghyd â'r trefniadau newydd ar gyfer absenoldeb teulu, yw categoreiddio menywod fel gofalwyr. Mae gwelliant go iawn yng nghynrychiolaeth menywod yn siambrau'r cynghorau yr un mor debygol o gynnwys menywod heb ddibynyddion, neu'r rheini a oedd â dibynyddion ond bod y rheini yn oedolion erbyn hyn.

Yn yr Alban, nid oes lwfans gofal fel y cyfryw, ond gall cynghorwyr ddewis bod yn rhan o gynllun "aberthu cyflog", lle maent yn ildio rhan o'u cydnabyddiaeth ariannol yn gyfnewid am dalebau gofal plant.

Mae agweddau ar y profiad o fod yn gynghorydd yn gallu bod yn ddigon hefyd i gymell pobl i beidio ag ymgeisio. Mae llawer o gynghorwyr yn "brolio" eu bod ar gael i'w hetholwyr 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos, yn cael eu galw allan bob awr o'r dydd neu'r nos. Er ei bod yn bosibl bod hynny'n wir - a gall fod yn anodd i gynghorydd anwybyddu etholwr sydd â phroblemau - nid yw maint y gwaith a awgrymir yn mynd i annog pobl newydd i fod yn rhan.

Er bod sawl cynghorydd yn aml yn barod i'w ymroi ei hunain yn llwyr, anaml iawn y bydd y cyfryngau yn eu canmol ond maent yn ddigon parod i dynnu sylw at unrhyw wendidau a'u condemnio.

## ***Mentrau llwyddiannus***

Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi penodi "Hyrwyddwr Datblygu Aelodau" o blith y cynghorwyr eu hunain. Mewn rhai achosion, mae gan y rhain y rôl o ddenu recriwtiaid newydd ar y cyngor, mewn rôl fentora. Mewn ambell gyngor, mae eu rôl yn fwy soffistigedig. Mae gan gyngor Abertawe, er enghraifft, amrywiol hyrwyddwyr aelodau a'r nod yw darparu cyswllt rhwng y cyngor a'r grwpiau penodol heb gynrychiolaeth ddigonol.[25]

Aeth Cymdeithas Cynghorau Llundain ati, cyn eu hetholiadau yn 2010, i gynhyrchu taflen "People like You ….. Stand for Election". Anelwyd y daflen yn benodol at grwpiau lleiafrifoedd ethnig ond yn fwy cyffredinol at annog amrywiaeth yn siambr y cyngor. Gellid defnyddio ymgyrch o'r fath mewn unrhyw ardal.

Ers cymeradwyo'r Mesur, mae cynghorau cymuned wedi gallu cyfethol pobl ifanc mewn swyddogaeth ddibleidlais i fod yn arsyllwyr sy'n siarad ar y cyngor. Nid oes dim yn atal cyngor sir rhag gwneud yr un peth.

Mae arweinwyr cynghorau sydd wedi penodi menywod neu aelodau iau i'w cabinetau wedi creu esiamplau posibl. Er nad ydynt wrth gwrs ond yn gallu penodi yn ôl haeddiant, mae modd edrych ar haeddiant mewn ffyrdd gwahanol. Eto yng nghyngor Abertawe, yr arfer a ddefnyddiwyd gan yr arweinydd yn dilyn etholiadau 2012 oedd caniatáu i unrhyw aelod o'r grŵp gwleidyddol mewn grym i ymgeisio am swyddi yn y cabinet ac i gymryd rhan mewn cyfweliad gyda'r arweinydd a'r dirprwy. Wrth fabwysiadu'r dull hwn yn hytrach na'r nawddogaeth draddodiadol, cafwyd arweinyddiaeth yn y cyngor a oedd yn cynnwys pedair menyw a dau ddyn iau.

Cyhoeddodd CLILC lyfryn yn etholiadau 2012 yn dwyn y teitl "Cynghorydd"[26], a oedd yn ateb nifer o gwestiynau y gallai darpar gynghorwyr eu gofyn am eu rôl yn y dyfodol. Roedd y llyfryn ar gael ar-lein yn ystod cynadleddau pleidiau gwleidyddol a digwyddiadau eraill ac fe'i dosbarthwyd ymysg ymgeiswyr a oedd yn sefyll mewn etholiadau cyngor sir.

Bu'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn cynnal yr ymgyrch "Cynghorydd" yng nghynghorau Llundain hefyd. Dywedodd Steve Reed sy'n Aelod Seneddol dros

[25] http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=52702
[26] http://www.wlga.gov.uk/cynghorydd-canllawiau-i-ymgeiswyr-etholiadau-lleol-cymru-2012

Ogledd Croydon: "*I agree that we need a much more diverse and representative group of councillors representing our communities. We need more women, more young people and more people from black, Asian and minority ethnic communities. During my time as leader of the opposition in Lambeth, up until 2006, we ran a three-year programme that identified people from precisely those groups, offering them shadowing, mentoring and training, and supporting them to stand as councillors. We were delighted in 2006 when that bore fruit, with the biggest increase in BME representation anywhere in the country that year. That model has been used by all parties in other places but, sadly, it is not yet used everywhere. I commend the LGA for its work, through the Be a Councillor campaign, to extend such models".*

Yn amlwg, gellir cyflawni llawer drwy wella delwedd llywodraeth leol os yw cynghorwyr yn gweld eu hunain fel cenhadon yn eu cymuned leol ac yn annog pobl i ystyried dilyn eu camau i lywodraeth leol. Yn 2007, cynhaliodd gyngor Blaenau Gwent ddigwyddiad yn dwyn y teitl "I'm a Councillor, Get me Out of Here!"

**Astudiaeth Achos Blaenau Gwent**

Dywedodd Des Hillman, arweinydd Cyngor Blaenau Gwent bryd hynny: "I'm a Councillor helps to promote local democracy and aims to get young people to ask questions and get excited by politics – after all they are the next generation of voters."

Yn 2007 cymerodd y Cynghorwyr Gillian Clark, Jennifer Morgan, Haydn Trollope, Stephen Thomas a Hedley McCarthy ran yn y gystadleuaeth. Cyflwynodd y cynghorwyr faniffesto personol ac ateb cwestiynau ar y wefan www.bigvote.org.uk.

Cofrestrodd dros 200 o bobl ifanc i gymryd rhan yn her democratiaeth 'I'm a Councillor Get Me Out of Here'. Gwnaethant ofyn 463 o gwestiynau a phleidleisio am eu dewis o blith y pum cynghorydd i fod yn Hyrwyddwr Ieuenctid Blaenau Gwent ar gyfer 2007. Adran Blaenau Gwent ar y wefan www.bigvote.org.uk ar gyfer her 'I'm a Councillor Get Me Out of Here', gyda chymorth Ymgyrch Democratiaeth Genedlaethol, oedd y drydedd adran brysuraf yn y DU.

Dywedodd y Cynghorydd Clark, Aelod Gweithredol dros Addysg a Hyrwyddwr Ieuenctid Blaenau Gwent yn 2007: "Young people in Blaenau Gwent are the next generation of voters – it is vital that they are engaged in the democratic and political process and take an interest in local affairs. By showing that we listen to them and take them seriously, we can ensure that they will take part in local democracy in the future."

Ers 2012, mae Llywydd y Cynulliad, y Fonesig Rosemary Butler AC, wedi cynnal cyfres o seminarau am y thema Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus. Yn y seminarau

hyn, roedd paneli o fenywod dylanwadol o wahanol sectorau yn cymryd rhan mewn trafodaethau yn edrych ar yr hyn sy’n rhwystro menywod rhag cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Mae hi wedi lansio safle porth gwe[27] hefyd yn cynnwys manylion penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â chyfleoedd i gael hyfforddiant priodol; ac mae’n bwriadu lansio cynllun mentora a’r nod yw rhoi hyfforddiant datblygiad personol a sgiliau i fenywod a chyfleoedd i gysgodi rôl.

[27] http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-presiding-officer/wipl-home/wipl-portal.htm

# Casgliadau

## ***Arolwg yr ymgeiswyr***

Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru gynnal yr arolwg, yn hytrach na sefydliadau'r llywodraeth leol, a heb os nac oni bai, mae hynny wedi effeithio er gwaeth ar y gyfradd ymateb i'r arolwg. Cafwyd ambell ymateb gan gynghorwyr i Lywodraeth Cymru, ac roeddent yn amheus ynghylch beth oedd pwrpas yr arolwg ac ynghylch natur fusneslyd y cwestiynau yn eu barn hwy. Mae'n bosibl cael gwared ar lawer o'r gwrthwynebiad a'r natur wyliadwrus y tro nesaf y cynhelir yr arolwg (adeg yr etholiadau lleol cyffredin nesaf) drwy weithio'n agosach gyda llywodraeth leol i esbonio manteision yr arolwg ar gyfer mesur llwyddiant y camau sydd wedi'u creu i wella amrywiaeth.

Mae'n bosibl y gellir gwella'r gyfradd ymateb hefyd drwy wneud newidiadau o ran trefn yr arolwg. Ar y cychwyn, ymarfer ar bapur oedd hyn o safbwynt y sawl a oedd yn cael yr arolwg (er bod y data rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cael eu trosglwyddo'n electronig). Mae mwy a mwy o bobl yn dod yn fwy cyfarwydd â chyflenwi data ar-lein, ac i lawer byddai'n haws cynnwys dolen i fersiwn electronig o'r ffurflen, neu ei anfon yn uniongyrchol dros e-bost pe byddai manylion cyswllt y sawl sy'n cael yr arolwg ar gael.

Awgrymwyd y dylai'r arolwg cyngor sir a'r arolwg cyngor cymuned gael eu gweld fel arolygon ar wahân a'u dadansoddi felly, hyd yn oed pe byddent yn cael eu cynnal yr un pryd – sy'n ddoeth ac ystyried bod pob etholiad lleol yng Nghymru yn digwydd ar yr un diwrnod fel arfer. Dylai hyn fod yn bosibl drwy ddulliau gweinyddol ond gellid sicrhau bod agwedd fwy "bersonol", gyda'r llythyr egluro yn fwy priodol i bob cynulleidfa benodol.

Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf ar ôl yr etholiadau. Roedd hyn yn unol â geiriad y Mesur a gyflwynodd yr arolwg. Ond, mae'n bur debyg bod hyn wedi golygu bod cyfradd uchel o ymgeiswyr aflwyddiannus heb ymateb. Awgrymwyd y ceid gwell ymateb pe byddai'r ffurflenni'n cael eu dosbarthu adeg enwebu ymgeiswyr. Byddai'n rhaid cael rhyw fath o ddynodwr y gellid ei ddefnyddio i weld pwy gafodd ei ethol yn y pen draw, ond byddai'n rhaid sicrhau bod yr ymatebion yn gallu bod yn ddienw hefyd.

Un anhawster posibl gyda hyn yw bod y broses enwebu'n cael ei hystyried yn rhan o waith y Swyddog Canlyniadau, ac nid yr awdurdod lleol, ac mae cymhwysedd y Cynulliad wedi'i gyfyngu'n fawr iawn o ran cynnal etholiadau. Ond, mae amser ar ôl i geisio dod o hyd i lwybr cyfreithiol neu weithredol i gyflawni hyn.

Gwelwyd hefyd fod y cyfraddau ymateb yn well ar y cyfan lle roedd awdurdodau lleol wedi cytuno i'r Uned Ddata Llywodraeth Leol gynnal yr arolwg ar eu rhan. Ymddengys fod budd sylweddol yn y syniad o ddefnyddio'r Uned Ddata - neu gorff ymchwil priodol arall - i gynnal yr arolwg ledled Cymru.

Ar ben hynny, mynegwyd y dylid ceisio ailystyried cwestiynau'r arolwg gan geisio sicrhau y gellir cymharu'r canlyniadau'n well gydag arolygon eraill o gynghorwyr a gynhelir yn y DU.

Awgrymwyd hefyd y gellid gwella'r arolwg drwy gynnwys y bobl hynny a oedd wedi ystyried sefyll mewn etholiad ond wedi penderfynu peidio, er mwyn asesu beth a rwystrodd darpar ymgeiswyr. Cafwyd cynnig ychwanegol y dylid cynnal cyfweliadau manwl i gyd-fynd â'r arolwg. Nid oes modd cynnwys yr un o'r rhain yn yr arolwg yn unol â'r darpariaethau yn y Mesur. Byddai hyn yn gofyn am gynnal prosiect ansoddol ar wahân ond sy'n gysylltiedig, yn fuan ar ôl yr arolwg a byddai'n gofyn am gydweithrediad y pleidiau gwleidyddol i enwi pobl bosibl i'w cyf-weld. Mater i'r Gweinidog priodol fyddai penderfynu'n nes at yr amser a fyddai'n werth gwneud hyn neu beidio.

Mae gan awdurdodau lleol fynediad at y data ar gyfer eu hardal eu hunain. Gellid defnyddio hyn yn awr, ynghyd â data eraill, gan y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd a Hyrwyddwyr Cydraddoldeb o fewn awdurdodau i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â materion amrywiaeth. Gallai awdurdod lleol ddefnyddio'r wybodaeth i'w helpu i dargedu mentrau wedi'u hanelu at annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgeisio.

Gallai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth werthfawr hefyd – ar eu cyfer hwy eu hunain a'r gymuned wleidyddol yn fwy cyffredinol – pe byddent yn cynnal cyfweliadau ymadael ag aelodau etholedig a oedd wedi penderfynu peidio ag ail-sefyll mewn etholiad. Byddai CLlLC mewn sefyllfa dda i gasglu'r data hyn gan

awdurdodau lleol, yn ddienw os yn briodol, er mwyn gweld a oes unrhyw nodweddion cyffredin rhwng y rheini sy'n penderfynu peidio ag ail-sefyll.

## ***Gwella amrywiaeth a chynrychioldeb***

I raddau mwy nag unrhyw ffactor arall, nodwyd mai cynrychiolaeth annigonol menywod mewn bywyd gwleidyddol yn gyffredinol, ac mewn llywodraeth leol yn benodol, yw'r broblem fwyaf sy'n wynebu'r rheini sy'n awyddus i gael siambr cyngor sy'n adlewyrchu ei etholwyr. Gwyddys ers tro byd mai menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr mewn sawl rhan o'r gweithlu, yn enwedig y sector cyhoeddus. Gwelir yn fwyfwy fod menywod yn cyrraedd swyddi rheoli, gan gynnwys swyddi uwch reoli. Ac eto, ac eithrio'r Cynulliad Cenedlaethol, nid ydym wedi gweld menywod yn llenwi cyfran gynrychioladol o seddi etholiadol.

30% yw'r targed i'w gyrraedd i gael cynrychiolaeth o fenywod mewn swyddi gwneud penderfyniadau ledled y Gymanwlad (gweler isod). Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod gan lawer o wledydd y Gymanwlad ddiwylliant sy'n ei gwneud yn anodd iawn i fenywod ddatblygu fel y maent wedi'i wneud mewn economïau mwy datblygedig, ac mae 30% yn ffigur uchelgeisiol iawn ar eu cyfer hwy. Nid yw'n dderbyniol i wlad a chanddi safonau cydraddoldeb ers tro a lle na ddylai dim rwystro menywod rhag cyfranogi.

**Cynllun Gweithredu'r Gymanwlad ar gyfer Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau 2005-2015**[28]

*Democracy is a fundamental value of the Commonwealth. Women's full participation in democracy and in peace processes is crucial for the achievement of sustainable development. A target of no less than 30 per cent of women in decision-making in the political, public and private sectors by 2005 was recommended by the Fifth Meeting of Commonwealth Ministers Responsible for Women's Affairs (5WAMM) in 1996 and endorsed by the Commonwealth Heads of Government Meeting (CHOGM) in Edinburgh in 1997.* (tudalen 10)

***Governments are encouraged to take action to*:** (tudalennau 29/30)
i. *Increase women's representation to a minimum of 30 per cent in decision-making in parliament and local government by creating an enabling environment for women (including young women) to seek and advance political careers and by other measures such as encouraging political parties to adopt a 30 per cent target for women candidates as part of*

[28] http://secretariat.thecommonwealth.org/files/212371/FileName/GenderPOA2005-2015.pdf

*their manifestos and to provide leadership training for women. Governments who have already achieved 30 per cent should strive for much higher aspirations.*

*ii. Review the criteria and processes for appointment to decision-making bodies in the public and private sectors to encourage increased women's participation and representation. This will require explicit investment into institutional capacity.*

*iii. Promote standards in the media whereby discriminatory and/or derogatory images and remarks about women are eliminated.*

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i geisio cyflwyno cwota o 40% ar gyfer menywod ar fyrddau sector cyhoeddus. Fe'i hysbrydolwyd gan Norwy sydd â'r un cwota ar gyfer byrddau cwmnïau.

Yn ogystal â hynny, cynigwyd yr argymhellion canlynol yn Adroddiad Davies ar Fenywod ar Fyrddau[29]: *All Chairmen of FTSE 350 companies should set out the percentage of women they aim to have on their boards in 2013 and 2015. FTSE 100 boards should aim for a minimum of 25% female representation by 2015 and we expect that many will achieve a higher figure. Chairmen should announce their aspirational goals within the next six months (by September 2011). Also we expect all Chief Executives to review the percentage of women they aim to have on their Executive Committees in 2013 and 2015.*

Mae'n peri gofid bod ymchwil ar gael sy'n awgrymu bod menywod yn fwy tebygol na dynion o roi'r gorau i fod yn rhan o wleidyddiaeth yn gyfan gwbl os ydynt yn colli eu seddi neu'n penderfynu peidio â sefyll eto. Gallai hyn awgrymu bod sefydliad lle mae dynion fwyaf blaenllaw, gyda'i arddull ymosodol gysylltiedig o ddadlau, yn ddigon i gymell menywod i beidio â sefyll. Eto, byddai cyfweliadau ymadael gan awdurdodau lleol yn helpu i egluro hyn.

Ond, ar ôl llwyddo i gael nifer fawr o fenywod yn aelodau, (a'r Cynulliad, fwy na thebyg yw'r enghraifft orau o hyn), gellir mynd ati wedyn i newid natur y dadlau a'r trafod gan ddefnyddio ffordd fwy rhesymol a chydweithredol. Mae'n hynod annhebygol, serch hynny, y gellir cyflawni hyn drwy lwc, nid yn y tymor byr i'r tymor canolig beth bynnag. Er bod gan Gymru nifer fawr o gynghorwyr Annibynnol yn draddodiadol, ar lefel cyngor sir o leiaf mae'r mwyafrif llethol o'r aelodau etholedig yn cynrychioli pleidiau gwleidyddol. Mae'n bur debyg bod angen rhyw fath o weithredu cadarnhaol, yn enwedig gan bleidiau gwleidyddol. Pa bynnag ffordd y gwneir hyn,

[29] https://www.gov.uk/government/publications/women-on-boards-review

mae'n golygu cael menywod i sefyll mewn etholiad ar gyfer seddi lle gellid llwyddo. Byddai pleidiau gwleidyddol yn elwa o edrych ar lwyddiannau lleol o wella amrywiaeth a gweld pa wersi a fyddai'n elwa o weithredu hyn yn gyffredinol.

Ceir, wrth gwrs, broblemau eraill gyda phroffil cynghorwyr yng Nghymru. Mae'r oedran cyfartalog, sydd oddeutu 60, yn rhy uchel. Nid oes digon ohonynt mewn cyflogaeth. Ychydig iawn o bobl ifanc (dan 30 mlwydd oed) sydd yn siambrau'r cyngor. Er ei bod yn ymddangos fod canran y cynghorwyr anabl yn uwch na'r cyfartaledd, mae hynny fwyaf tebyg i'w briodoli i oedran yn bennaf. Yn olaf, er nad oes nifer fawr o bobl dduon neu bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru ar y cyfan (4.4% o'r boblogaeth fel y'i cofnodwyd yng nghyfrifiad 2011), mae cynrychiolaeth ohonynt yn yr ardaloedd dinesig yn rhy isel a dim ond llond llaw o fenywod du ac o leiafrifoedd ethnig sy'n gynghorwyr.

Mae Stonewall Cymru wedi dweud hefyd fod proffil oed a rhyw presennol llawer o lywodraeth leol yng Nghymru yn creu amgylchedd sy'n annhebygol o ddenu ymgeiswyr sy'n hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol a fyddai â diddordeb fel arall mewn gwleidyddiaeth leol. Mae'n bosibl y byddai agweddau traddodiadol hefyd yn ddigon i gymell unrhyw gynghorydd Hoyw, Lesbiaidd a Deurywiol rhag datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol.

Er bod y pleidiau gwleidyddol yn hyrwyddo'r mwyafrif helaeth o ymgeiswyr, mae'n bosibl y bydd angen ymgyrch ehangach, tebyg i'r ymgyrch Camu Ymlaen Cymru, cyn yr etholiadau nesaf, i geisio ymgysylltu â rhwydweithiau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan eu cysylltu â chynghorwyr i'w cysgodi, a chodi ymwybyddiaeth o'r posibiliadau, gobeithio.

Byddai hyrwyddo addysg am wleidyddiaeth mewn ysgolion - gydag ymweliadau a sgyrsiau gan gynghorwyr - yn gallu helpu i gyrraedd pobl ifanc sy'n paratoi i bleidleisio a chymryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth yn fwy cyffredinol.

Gallai hyrwyddwr aelodau - cynghorwyr â rôl benodol i annog hyfforddiant a datblygiad cynghorwyr - ddefnyddio eu safleoedd fel efengylwyr llywodraeth leol drwy geisio adnabod darpar gynghorwyr y dyfodol. Yn wir, dylai pob cynghorydd fabwysiadu'r rôl hon.

Gall arweinwyr cynghorau a grwpiau gwleidyddol chwarae rôl hanfodol drwy geisio helpu aelodau iau - a menywod - i ddringo o fewn eu cyngor. Er enghraifft, gall eu cynnwys yng nghabinet y cyngor, os oes ganddynt y gallu, eu rhoi mewn swyddi dirprwyon cabinet fel rôl datblygu, neu eu rhoi yn gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd ar bwyllgorau'r cyngor, eu paratoi ar gyfer swyddi arwain yn y dyfodol.

Mae cryn dipyn o anwybodaeth ynghylch rôl cynghorwyr, ar lefel cyngor sir neu ar lefel cyngor cymuned. Gall y rhain amrywio o gredu, ar y naill law, fod cynghorwyr yn gwneud hyn er mwyn eu hunain neu'n cael eu talu am wneud ychydig iawn, i gredu, ar y llaw arall, eu bod ar gael 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos, heb ddim amser iddynt hwy eu hunain (syniad sy'n aml yn cael ei feithrin gan gynghorwyr eu hunain).

Yn sicr mae angen gwybodaeth ffeithiol am rôl cynghorwyr, yr ymrwymiad amser tebygol, y dyletswyddau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni, y gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael - gan gynnwys lwfans gofal - a'r goblygiadau o ran treth a budd-daliadau. Dylai hyn hefyd gynnwys yr hawl gyfreithiol i gael amser o'r gwaith, hawliau absenoldeb teulu newydd, y posibilrwydd o fynychu cyfarfodydd o bell a hyblygrwydd cynghorau ynghylch amseroedd cyfarfodydd.

Mae angen i gyhoeddiadau megis "People Like You" a'r ymgyrch ddiweddar dan arweiniad y Llywydd a Chwarae Teg, ynghyd â Merched yn Gwneud Gwahaniaeth, fod yn rhan o ymgyrch.

Mae angen i lywodraeth leol greu cysylltiadau neu ddefnyddio cysylltiadau presennol â sefydliadau cymunedol i geisio annog eu haelodau i ystyried llywodraeth leol. Gallai hyn gynnwys llywodraethwyr ysgol, cymdeithasau preswylwyr a thenantiaid, sefydliadau chwaraeon, y rheini sy'n gweithredu dros grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a llawer o rai eraill.

Gellid annog cyflogwyr i sylweddoli beth yw'r manteision posibl i'w sefydliadau o gael cynghorwyr etholedig yn eu gweithlu. Yn ogystal â chyfrannu at gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol y cwmni hwnnw drwy helpu eu cymunedau lleol, gellir defnyddio hyfforddiant a datblygiad ehangach y cynghorwyr pan fyddant yn dod yn ôl i'w gweithle. Gallai caniatáu seibiant gyrfa i rywun mewn swydd uchel yn y cyngor lleol dalu ar ei ganfed o ran eu datblygiad personol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'n ddiddorol nodi bod Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin wedi dweud yn ei adroddiad, "Councillors in the Frontline[30]: "***The Ministry of Defence is giving serious consideration to the ways in which employers can be encouraged to support military reservists. The Department for Communities and Local Government should conduct a similar review. We recommend that the Government consult on how employers can be encouraged to provide support to their staff who serve as councillors. Options that might be considered include a kitemark-style recognition scheme and the introduction of a financial incentive scheme".***

[30] http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmselect/cmcomloc/432/43202.htm

# ARGYMHELLION

## Gwella’r ymateb i’r arolwg

1. ***Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â llywodraeth leol, yn enwedig drwy CLlLC ac Un Llais Cymru, i egluro pwrpas yr arolwg a’i bwysigrwydd wrth fesur newidiadau yn yr amrywiaeth o bobl sy’n awyddus i gael eu hethol a’r rheini sy’n llwyddo i wneud hynny. Dylai hyn gynnwys adroddiad ar brif bwyntiau’r arolwg cyntaf, er mwyn i’r rheini sy’n cael yr holiadur allu gwerthfawrogi ei bwrpas yn well.***
2. ***Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod modd llenwi a dychwelyd holiadur yr arolwg nesaf ar-lein.***
3. ***Dylid gwahanu’r arolygon ymgeiswyr ar lefelau sir a chymuned, a’u cynnal fel dau arolwg gwahanol.***
4. ***Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu methodoleg sy’n golygu bod modd dosbarthu holiaduron yr arolwg wrth ddelio â phapurau enwebu, cyn yr etholiadau.***
5. ***Dylai Llywodraeth Cymru gytuno â llywodraeth leol i gyflogi un darparwr ymchwil, megis Uned Data Llywodraeth Leol, i gynnal yr arolwg ar ran awdurdodau lleol yn yr etholiadau nesaf.***

## Gwella'r wybodaeth o’r Arolwg

6. ***Dylai Llywodraeth Cymru gymharu'r rhestr gwestiynau â'r rheini sy'n cael eu defnyddio mewn arolygon cynghorwyr mewn rhannau eraill o'r DU. Dylai hefyd, fel rhan o’r adolygiad cyffredinol o’r cwestiynau, benderfynu a ddylid ychwanegu neu ddiwygio unrhyw rai er mwyn gallu eu cymharu’n well ac ymgynghori ar y cynigion hynny.***
7. ***Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil i wella’r arolwg nesaf, gyda’r nod o gael data ansoddol o sampl o ymatebwyr ynghyd â chyf-weld â sampl o ymgeiswyr posibl a oedd wedi penderfynu peidio â sefyll yn ddiweddarach.***
8. ***Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio’r data ar gyfer eu hardal eu hunain, a datblygu strategaethau i geisio gwella amrywiaeth***

***mewn etholiadau yn y dyfodol. Gellir mesur llwyddiant hyn drwy'r arolwg ymgeiswyr dilynol.***

9. ***Dylid gorfodi awdurdodau lleol i gynnal cyfweliadau ymadael â chynghorwyr sy'n penderfynu peidio ag ailsefyll, er mwyn asesu'r rhesymau dros hynny. Dylai CLlLC/Uned Ddata Llywodraeth Leol gasglu data dienw gan yr awdurdodau lleol a chyhoeddi adroddiad ar ôl pob etholiad cyffredin.***

**Camau i bleidiau gwleidyddol**

10. ***Dylai pleidiau gwleidyddol (a llywodraeth leol ei hun) ddefnyddio cynlluniau mentora, sy'n cynnwys menywod sy'n gynghorwyr llwyddiannus a rheini sy'n cael eu hethol ar lefelau eraill, drwy eu hannog i fod yn fentoriaid ar gyfer ymgeiswyr posibl eraill a chan ymgysylltu â rhwydweithiau lleol priodol.***
11. ***Dylid annog yr holl brif bleidiau gwleidyddol i ddatblygu eu strategaethau eu hunain a fydd yn arwain at enwebu menywod yn ymgeiswyr mewn o leiaf 40% o'r seddi hynny y mae'r blaid o dan sylw yn credu y gall eu hennill yn yr etholiadau lleol nesaf. Bydd hyn yn bwysig dros ben yng ngoleuni adolygiad Williams a'r tebygolrwydd y bydd llai o gynghorwyr.***
12. ***Dylai arweinwyr pob prif blaid wleidyddol ymrwymo'n gyhoeddus i gefnogi siarter ar gyfer amrywiaeth mewn llywodraeth leol, yn seiliedig ar yr argymhellion hyn, gan gynnwys y targed 40%.***

**Gwella cyfranogiad mewn llywodraeth leol**

13. ***Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â CLlLC a grwpiau cydraddoldeb i sefydlu cynllun cysgodi/mentora yn ystod y ddwy flynedd cyn yr etholiadau lleol nesaf. Byddai modd ehangu hyn i gynnwys cynghorau tref a chymuned, ar y cyd ag Un Llais Cymru.***
14. ***Dylai awdurdodau lleol annog ysgolion uwchradd i drefnu i gynghorwyr lleol siarad â myfyrwyr ysgol am eu rôl, fel rhan o'r nod "Dinasyddiaeth Weithgar" yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Dylid***

*annog cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan yn hyn.*

15. *Dylai cynghorau cymuned fanteisio ar ddarpariaethau'r Mesur i gyfethol "cynghorwyr" ifanc i rôl heb bleidlais. Dylai cynghorau sir ystyried manteision mabwysiadu gweithdrefnau tebyg, gan gynnwys creu Cabinetau Ieuenctid "Cysgodi". Dylid cynnal ymgyrch gydag Un Llais Cymru a phartïon eraill â buddiant i hyrwyddo cynghorau tref a chymuned er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl y cynghorau a'u llwybr posibl i fywyd gwleidyddol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.*

16. *Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwerthuso'r prosiect Ceisio am Swydd Etholiadol a gynhaliwyd yn ystod yr etholiadau yn Lloegr, ac ystyried cyflwyno cynllun tebyg ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf.*

17. *Dylid annog "Hyrwyddwyr Aelodau" ym mhob cyngor i chwarae rôl allanol i annog pobl i gyfranogi mwy mewn llywodraeth leol.*

18. *Dylid annog pob cynghorydd nad yw'n bwriadu ail-sefyll yn yr etholiadau canlynol i fentora darpar ymgeisydd olynol ar gyfer ei sedd. Gallai'r Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd oruchwylio'r gwaith hwn.*

19. *Dylai Llywodraeth Cymru gydlynu ymgyrch, ar y cyd â llywodraeth leol a phartneriaid perthnasol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a dinasyddiaeth, er mwyn sicrhau bod dyrchafiadau ar lefel genedlaethol a lleol yn digwydd yn ystod y 18 mis yn arwain at yr etholiadau lleol nesaf a sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybodaeth briodol am lywodraeth leol, a bod y syniad o fod yn weithgar mewn llywodraeth leol yn cael ei gyfleu yn y gymuned. Dylid cynnwys cyfryngau lleol a chenedlaethol yn yr ymgyrch, gan geisio mynd i'r afael â'r ddelwedd negyddol o gynghorwyr a bortreadir yn aml yn y cyfryngau.*

20. *Yn y cyfnod rhwng nawr a'r cyfnod cyn yr etholiadau a ddisgrifir uchod, dylid cynnal ymgyrch barhaus ar lefel lai, yn cynnwys rhanddeiliaid priodol, i sicrhau bod yr angen i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn dal yn amlwg ymhlith y cyhoedd, ac i gadw cysylltiad â rhwydweithiau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai hyn*

*gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i fodelau rôl, wedi'i dargedu er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd priodol.*

21. *Dylai'r ymgyrch hon hefyd gynnwys cydweithio â chyflogwyr er mwyn ei gwneud yn haws i'w gweithwyr fod yn aelodau cyngor. Dylai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddangos esiampl drwy ei gwneud yn haws i'w gweithwyr sefyll a gwasanaethu fel cynghorwyr.*

22. *Dylid annog sefydliadau yn y sector preifat, yn enwedig y rheini sy'n elwa o brosesau caffael Llywodraeth Cymru, i gefnogi staff sy'n dymuno gwasanaethu fel cynghorwyr, fel rhan o'u rhaglenni Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Dylid gofyn i CBI a sefydliadau cyflogwyr eraill gefnogi'r nod hon.*

23. *Dylai awdurdodau lleol nad ydynt eisoes yn darlledu eu cyfarfodydd yn barod ddechrau gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â manteisio'n llawn ar yr holl gyfryngau cymdeithasol eraill i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach.*

24. *Dylai Llywodraeth Cymru werthuso effeithiolrwydd y gwelliannau a gyflwynwyd drwy'r Mesur i weld pa mor effeithiol y maent wedi bod o ran cyflawni nodau'r Panel Arbenigwyr.*

## CYNLLUN GWEITHREDU AC AMSERLEN

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| **Gwella'r ymateb i'r arolwg** | | |
| 1. Dylai Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Un Llais Cymru egluro pwrpas yr arolwg a'i bwysigrwydd. Dylai hyn gynnwys adroddiad ar brif bwyntiau'r arolwg cyntaf, er mwyn i'r rheini sy'n cael yr holiadur allu gwerthfawrogi ei bwrpas yn well. | Dylid llunio deunyddiau mewn da bryd i'w dosbarthu gyda'r arolwg ymgeiswyr yn etholiadau 2017. | Costau gweinyddol, dosbarthu ac ysgrifennu, yn debygol o gael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol. |
| 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod modd llenwi a dychwelyd holiadur yr arolwg nesaf ar-lein. | Bydd angen cwblhau'r gwaith llunio a gweinyddu cyn etholiadau 2017. | Bydd y costau bach yn dod o dan gyllidebau y cytunwyd arnynt. |
| 3. Dylid gwahanu'r arolygon ymgeiswyr ar lefelau sir a chymuned, a'u cynnal fel dau arolwg gwahanol. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |
| 4. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu methodoleg sy'n golygu bod modd ddosbarthu holiaduron yr arolwg wrth ddelio â phapurau enwebu. | Bydd angen rhoi sylw i hyn yn ystod 2015/16 er mwyn rhoi digon o amser i weinyddwyr etholiadol gytuno arnynt ac i ddiwygio darpariaethau'r Mesur o bosibl. | Os bydd angen diwygio'r Mesur, bydd y gost yn dod o dan gyllidebau presennol. |

| | | |
|---|---|---|
| 5. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno â llywodraeth leol i gyflogi un darparwr ymchwil i gynnal yr arolwg ar ran awdurdodau lleol yn yr etholiadau nesaf. | Dylid cytuno ar hyn o leiaf flwyddyn cyn yr etholiadau nesaf. | Dim cost ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu costau'r arolwg yn barod. |
| **<u>Gwella'r wybodaeth o'r Arolwg</u>** | | |
| 6. Dylai Llywodraeth Cymru gymharu'r rhestr gwestiynau â'r rheini sy'n cael eu defnyddio mewn arolygon cynghorwyr mewn rhannau eraill o'r DU, a'u diwygio er mwyn gallu eu cymharu'n well. | Dylid cwblhau'r gwaith hwn yn 2015 rhag ofn y bydd angen diwygio'r Mesur. | Yn cael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol. |
| 7. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil i wella'r arolwg nesaf, gyda'r nod o gael data ansoddol o sampl o ymatebwyr ynghyd â chyf-weld â sampl o ymgeiswyr posibl a oedd wedi penderfynu peidio â sefyll yn ddiweddarach. | Bydd angen penderfynu erbyn mis Mai 2016 er mwyn cynnal yr ymarfer caffael. | Tua £10-15,000. |
| 8. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio'r data ar gyfer eu hardal eu hunain, a datblygu strategaethau i geisio gwella amrywiaeth mewn etholiadau yn y dyfodol. | Gallant fwrw ymlaen â hyn ar unwaith, ac eto ar ôl pob etholiad. | Byddai angen cynnwys y gost mewn cyllidebau presennol. |

| | | |
|---|---|---|
| 9. Dylai awdurdodau lleol gynnal cyfweliadau ymadael â chynghorwyr sy'n penderfynu peidio ailsefyll, er mwyn asesu'r rhesymau dros hynny. Dylai CLILC gasglu data dienw a chyhoeddi adroddiad ar ôl pob etholiad cyffredin. | Dylid cynnal y cyfweliadau yn 2016-17 ar ôl gwneud penderfyniadau am ymgeiswyr, a llunio'r adroddiad yn 2017. | Dim cost ychwanegol i'r cyllidebau presennol. |
| **Camau i bleidiau gwleidyddol** | | |
| 10. Dylai pleidiau gwleidyddol a llywodraeth leol ei hun annog menywod sy'n llwyddiannus i fod yn fentoriaid, gan ymgysylltu â rhwydweithiau lleol priodol. | Mae modd rhoi hyn ar waith ar unwaith. | Bydd y gost yn dod o dan gyllidebau presennol. |
| 11. Dylid annog yr holl brif bleidiau gwleidyddol i ddatblygu strategaethau a fydd yn arwain at enwebu menywod yn ymgeiswyr mewn o leiaf 40% o'r seddi hynny y mae'r blaid o dan sylw yn credu y gall eu hennill yn yr etholiadau lleol nesaf. | Dylid rhoi hyn ar waith mewn da bryd cyn dechrau'r broses o ddewis ymgeiswyr ar gyfer 2017. | Dim cost ychwanegol amlwg. |
| 12. Dylai arweinwyr y prif bleidiau gwleidyddol ymrwymo i'r targed hwn yn gyhoeddus. | Dylent ystyried hyn yn eu hymatebion i'r Adroddiad. | Dim cost. |
| **Gwella cyfranogiad mewn llywodraeth leol** | | |
| 13. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â CLILC, | Byddai'r rhaglen ar waith yn 2015 a 2016. | Cost cydlynydd prosiect, |

| | | |
|---|---|---|
| grwpiau cydraddoldeb ac, os yw'n briodol, Llywydd y Cynulliad, i sefydlu cynllun cysgodi/mentora yn ystod y ddwy flynedd cyn yr etholiadau lleol nesaf. Byddai modd ehangu hyn i gynnwys cynghorau tref a chymuned, ar y cyd ag Un Llais Cymru. | Byddai angen gwneud gwaith paratoi yn ystod ail hanner 2014. | costau gweinyddol a threuliau. Tua £30,000 y flwyddyn am ddwy flynedd a hanner. Byddai'n bosibl rhannu'r costau rhwng y cyrff o dan sylw. |
| 14. Dylai awdurdodau lleol annog ysgolion uwchradd i drefnu i gynghorwyr lleol siarad â myfyrwyr ysgol am eu rôl, fel rhan o'r nod "Dinasyddiaeth Weithgar" yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Dylid annog cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan yn hyn. | Dylid cytuno ar hyn yn ardal pob awdurdod lleol, ond mae modd bwrw ymlaen â'r mater ar unwaith. | Dylid cynnwys y gost mewn cyllidebau presennol. |
| 15. Dylai cynghorau cymuned fanteisio ar ddarpariaethau'r Mesur i gyfethol "cynghorwyr" ifanc i rôl heb bleidlais. Dylai cynghorau sir ystyried manteision mabwysiadu gweithdrefnau tebyg, gan gynnwys creu Cabinetau Ieuenctid "Cysgodi". Dylid cynnal ymgyrch gydag Un Llais Cymru a phartïon eraill â buddiant i roi hwb i gynghorau tref a chymuned i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl y | Dylai hyn fod yn ymgyrch barhaus ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad. | Bydd angen cytuno ar hyn mewn trafodaethau cyllid rhwng OVW a Llywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| cynghorau a'u llwybr posibl i fywyd gwleidyddol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. | | |
| 16. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwerthuso'r prosiect Ceisio am Swydd Etholiadol a gynhaliwyd yn ystod yr etholiadau yn Lloegr, ac ystyried cyflwyno cynllun tebyg ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf. | Ar ôl i Swyddfa Cydraddoldeb Llywodraeth y DU gyhoeddi ei gwerthusiad. Byddai angen rhoi'r cynllun ar waith o leiaf flwyddyn cyn yr etholiadau. | Yn dibynnu ar y galw, ond mae'n debygol y byddai angen tua £10,000 wrth gefn. |
| 17. Dylid annog "Hyrwyddwyr Aelodau" ym mhob cyngor i chwarae rôl allanol i annog pobl i gyfranogi mwy mewn llywodraeth leol. | Dylai pob awdurdod lleol fynd ar drywydd hynny ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. | Bydd y gost yn dod o dan gyllidebau presennol. |
| 18. Dylid annog pob cynghorydd i fentora darpar ymgeisydd olynol ar gyfer ei sedd. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |
| 19. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ac addysgol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid perthnasol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a dinasyddiaeth, i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybodaeth am lywodraeth leol a bod y syniad o fod yn weithgar mewn llywodraeth leol yn cael ei gyfleu yn y gymuned. | Dylai'r ymgyrchoedd ganolbwyntio ar 2015/16, er mwyn creu diddordeb ar gyfer etholiadau 2017. | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau arbenigedd drwy secondiadau mewnol neu gontractau tymor sefydlog, gyda chost bosibl o £30,000. Bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | angen i CLlLC ac eraill gytuno ar y costau cyhoeddusrwydd, ond maent yn debygol o fod tua £40,000. |
| 20. Ymgyrch barhaus, yn gysylltiedig â phwynt 18 uchod, i sicrhau bod yr angen i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn dal yn amlwg ymhlith y cyhoedd, ac i gadw cysylltiad â rhwydweithiau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i fodelau rôl, wedi'i dargedu er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd priodol. | Dechrau yn ystod ail hanner 2014, ac yn barhaus ar ôl hynny. | Dylid cysylltu costau gweinyddu a chydlynu prosiect â phwyntiau 13 a 18 uchod. Sefydlu grŵp llywio i oruchwylio’r gwaith. |
| 21. Dylai’r ymgyrch hon hefyd gynnwys cydweithio â chyflogwyr er mwyn ei gwneud yn haws i'w gweithwyr fod yn aelodau cyngor. Dylai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddangos esiampl drwy ei gwneud yn haws i’w gweithwyr sefyll a gwasanaethu fel cynghorwyr. | Ymgyrch barhaus a fydd yn dechrau yn ystod ail hanner 2014. | Fel yr uchod. |
| 22. Dylid annog sefydliadau yn y sector preifat, yn enwedig y rheini sy’n elwa o brosesau caffael | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru, i gefnogi staff sy'n dymuno gwasanaethu fel cynghorwyr, fel rhan o'u rhaglenni Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Dylid gofyn i CBI gefnogi'r nod hon. | | |
| 23. Dylai awdurdodau lleol nad ydynt eisoes yn darlledu eu cyfarfodydd ddechrau gwneud hynny, yn ogystal â manteisio'n llawn ar yr holl gyfryngau cymdeithasol eraill i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach. | Dylai pob awdurdod lleol ystyried hynny ar ôl i'r Adroddiad gael ei gyhoeddi. | Bydd y gost yn dod o dan gyllidebau presennol. (Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cychwynnol ar gyfer hyn yn barod). |
| 24. Dylai Llywodraeth Cymru werthuso effeithiolrwydd y gwelliannau a gyflwynwyd drwy'r Mesur i weld pa mor effeithiol y maent wedi bod o ran cyflawni nodau'r Panel Arbenigwyr. | Dylid gwerthuso'r Mesur yn ystod 2014/15. | Tua £25,000. |

# ATODIAD 1

## ***Cylch Gorchwyl y Grŵp Arbenigwyr***

a) Ystyried a dadansoddi canlyniadau Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012, a gynhaliwyd o dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

b) Nodi unrhyw welliannau o ran methodoleg a chynnwys yr arolwg y byddai modd rhoi sylw iddynt cyn yr etholiadau lleol nesaf yn 2017.

c) Ystyried goblygiadau canlyniadau’r arolwg o ran proffil Llywodraeth Leol yng Nghymru.

d) Derbyn tystiolaeth gan bobl a sefydliadau â buddiant o ran canlyniadau'r arolwg, ac amrywiaeth Llywodraeth Leol yn fwy cyffredinol.

e) Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, grwpiau gwleidyddol a rhanddeiliaid eraill a fydd yn help i lunio polisïau i gynyddu amrywiaeth, ac a fydd felly'n gwella proffil aelodau etholedig ar ôl Etholiadau Lleol 2017.

# ATODIAD 2

## ***Bywgraffiadau***




**Yr Athro Laura McAllister** yw Athro Llywodraethu yr Ysgol Rheolaeth ym Mhrifysgol Lerpwl, a Chadeirydd Chwaraeon Cymru. Cafodd ei haddysgu yn Ysgol Gyfun Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr a graddiodd o Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Caerdydd, lle cwblhaodd PhD mewn gwleidyddiaeth. Roedd Laura yn aelod o Gomisiwn Richard, sef y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddodd ei adroddiad ym mis Mawrth 2004, a bu'n rhoi cyngor ar ymchwil i'r Panel Annibynnol ar Gyflogau a Chefnogaeth i ACau yn 2008-09. Mae'n Athro Gwadd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Technoleg Queensland Brisbane, Awstralia ac yn Ysgol Gweinyddiaeth Genedlaethol Tsieina, Beijing.

Yn gyn chwaraewr a chapten tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru gyda 24 o gapiau, Laura yw Cadeirydd presennol Chwaraeon Cymru. Mae Laura yn Aelod o Fwrdd UK Sport ac Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru. Mae'n un o Ymddiriedolwyr Stonewall UK a'r Sefydliad Materion Cymreig, ac yn aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru British Council. Mae Laura wedi cael graddau anrhydeddus gan Brifysgol Bangor, Caerdydd a Morgannwg.



**Joy Kent** yw prif weithredwr Chwarae Teg ers mis Ionawr 2013. Cyn ymuno â'r sefydliad, Joy oedd cyfarwyddwr cyntaf Cymorth Cymru, corff ymbarél ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed. Cyn hynny, roedd ganddi rolau polisi yn Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae Joy hefyd yn un o ymddiriedolwyr WCVA ac yn gyfarwyddwr Gwasanaethau WCVA. Cyn ymgartrefu yng Nghymru, bu Joy yn rheoli ac yn dysgu mewn ysgolion iaith preifat yn Sbaen, y Weriniaeth Tsiec, Brasil a'r Aifft.



Tan yn ddiweddar, roedd **Dr Declan Hall** yn ddarlithydd Llywodraeth Leol a Gwleidyddiaeth yn y Sefydliad Llywodraeth Leol ym Mhrifysgol Birmingham, ac roedd yn aelod o Banel Arbenigol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol rhwng 2008 a 2012. Mae gan Dr Hall gysylltiad agos â chynlluniau tâl cynghorwyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mae bellach yn ymgynghorydd annibynnol

ar faterion llywodraeth leol.



**Naomi Alleyne** yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chyn hynny bu'n Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Roedd yn arfer gweithio yn yr Uned Cydraddoldebau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y'i gelwid ar y pryd, yn gweithio ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol ynghyd â lloches a mewnfudo. Mae hefyd wedi gweithio yn y ddau Gyngor Cydraddoldeb Hiliol, gan fod yn Gyfarwyddwr Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru.

# ATODIAD 3

Annwyl Gydweithwyr

***Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol – Cais am Dystiolaeth***

Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaethau wedi'u hanelu at gryfhau democratiaeth leol a chael gwared ar y rhwystrau a'r anghymelliadau o ran sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad lleol.

Mae'r Mesur hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru gynnal arolwg o ymgeiswyr a chynghorwyr ymhob etholiad lleol. Bydd y canlyniadau'n asesu effeithiolrwydd mentrau sydd wedi'u hanelu at wella amrywiaeth mewn cynghorau lleol yng Nghymru ac yn adeiladu proffil demograffig o'r rhai sy'n sefyll ac yn cael eu hethol mewn etholiad lleol.

Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf yn ystod etholiadau lleol mis Mai 2012 ledled Cymru ac yn ystod etholiadau lleol Mai 2013 ar Ynys Môn. O'r rhai wnaeth sefyll yn yr etholiadau ym mis Mai 2012, ymatebodd 3021 i'r holiadur. Cyhoeddwyd y canlyniadau (ac eithrio yn achos Ynys Môn) gan Lywodraeth Cymru. Atodir y ddolen.

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/local-government-candidates-survey/?skip=1&lang=cy

Yn dilyn cyhoeddi Canlyniadau'r Arolwg Ymgeiswyr Etholiadau Llywodraeth Leol, cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ei bwriad i sefydlu Grŵp Arbenigwyr i ystyried canlyniadau'r arolwg a materion cysylltiedig ac i ffurfio cynllun gweithredu gyda'r nod o wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol cyn etholiadau lleol 2017.

Mae copi o ddatganiad y Gweinidog a'r cylch gorchwyl i'w gweld yn:

http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/lgdiversity/?skip=1&lang=cy

Rwyf wedi cael fy mhenodi'n Gadeirydd y Grŵp Arbenigwyr ac rwy'n ysgrifennu i ofyn i chi neu'ch sefydliad ystyried cyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r Arolwg Ymgeiswyr Etholiadau Llywodraeth Leol ac, yn benodol, ar fater amrywiaeth y cynrychiolwyr a gaiff eu hethol mewn llywodraeth leol yn fwy cyffredinol. Rydym yn ceisio tystiolaeth sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth, profiad ac arbenigedd, a byddem hefyd yn croesawu unrhyw enghreifftiau o arfer gorau y gallech eu rhoi inni.

Efallai yr hoffech chi ystyried y cwestiynau isod wrth lunio eich tystiolaeth:

1. Ydych chi o'r farn y gellid gwella'r Arolwg Ymgeiswyr Etholiadau Llywodraeth Leol mewn unrhyw ffordd? Os felly, sut?

2. Beth allai annog mwy o ymateb i'r Arolwg Ymgeiswyr Etholiadau Llywodraeth Leol?

3. Ym mha ffyrdd rydych chi wedi defnyddio neu ystyried defnyddio canlyniadau'r arolwg yn eich sefydliad?

4. Beth yw'r prif rwystrau i grwpiau a dangynrychiolir rhag sefyll mewn llywodraeth leol?

5. Pa enghreifftiau da o raglenni neu fentrau sy'n hyrwyddo, cefnogi a gwella amrywiaeth, o ran y gynrychiolaeth, rydych chi wedi cael profiad ohonynt mewn llywodraeth leol neu unrhyw fan arall, ac y gellid eu trosglwyddo?

6. Pa fentrau, yn eich barn chi, allai arwain at fwy o gyfranogiad gan grwpiau a dangynrychiolir (yn arbennig menywod, pobl ifanc, pobl gyflogedig, grwpiau o bobl anabl a lleiafrifoedd ethnig)?

Bydd y Grŵp Arbenigwyr yn chwilio am astudiaethau achos sy'n dangos tystiolaeth o arferion da neu lle gellid gwneud gwelliannau yn y maes hwn. Os ydych chi neu'ch sefydliad yn fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau manylach am eich tystiolaeth neu'ch profiad, rhowch wybod inni.

Mae'n rhaid inni adrodd i'r Gweinidog cyn y Nadolig. O ystyried yr amserlen dynn hon, nid yw'r cyfnod ymgynghori arferol o 12 wythnos yn ymarferol yn anffodus.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno eich tystiolaeth i Christine.Ayres@Wales,gsi,gov,uk erbyn **30 Medi 2013**.

# ATODIAD 4

***Ymatebwyr i Gais am Dystiolaeth y Grŵp Arbenigwyr***

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Y Gymdeithas Newid Etholiadol

Cyngor Sir Ceredigion

Philip Williams

Cyngor Tref Penarth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Un Llais Cymru

Chwarae Teg

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyngor Cymuned Llandochau

Y Blaid Lafur

Plaid Cymru

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Medi, 2014** |
| **PWNC** | **Mynychu o Bell** |
| **PWRPAS** | **Ceisio barn y pwyllgor ar newidiadau i'r Cyfansoddiad** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Bydd aelodau'r pwyllgor yn cofio bod y pwyllgor wedi trafod mynychu pwyllgorau o bell yn y gorffennol. Yn ystod y trafodaethau hynny, bu cytundeb am ganiatáu mynychu pwyllgorau o bell o Swyddfeydd eraill y Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli.

2. Wrth gwrs mae rhai cymhlethdodau posib gyda datblygiad o'r fath o ran pethau fel y cworwm ar gyfer cyfarfodydd a beth sydd yn digwydd pe byddai'r offer yn methu ar unrhyw bwynt. Mae'r dechnoleg i alluogi'r mynediad hynny yn ei le, yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfieithu drwy'r offer ac mae'n cael ei brofi cyn ei ddefnyddio'n ffurfiol.

3. Mae copi drafft o Reol Gweithdrefn i'r Cyngor i geisio delio â sefyllfaoedd o'r fath ynghlwm er sylwadau'r pwyllgor.

4. Y cwestiynau penodol sydd angen sylw gan y pwyllgor yw:-

- Pa bwyllgorau y dylid eu rhestru yn 4.17.2 fel yr unig rai sy'n gymwys i gael presenoldeb o bell ynddynt gan fod y pwyllgor hwn yn y gorffennol wedi ffafrio pwyllgorau lle nad yw pleidleisio mor allweddol?
- Sawl diwrnod o rybudd sydd ei angen – 4.17.3?
- A oes angen rheol 4.17.4 a 4.17.5? (Mae'n rhaid cael 4.17.5 yn ôl y ddeddf). A yw cael dwy reol yn cymhlethu gweinyddiaeth y pwyllgor heb ychwanegu fawr at ei reolaeth. Mae 4.17.4 yn gwahardd aelodau sy'n ymuno o bell rhag cyfrif at y cworwm felly mae'n rhaid cael o leiaf chwarter aelodau'r pwyllgor yn yr ystafell gyfarfod. Mae 4.17.5 yn ymdrin â'r cydbwysedd rhwng y rhai sy'n ymuno o bell a'r rhai sydd yn yr ystafell gyfarfod
- Pa ganran i'w gynnwys yn 4.17.5? Mae'n bosib gosod canran uwch na 30% ond nid is.

5. Gwahoddir y pwyllgor i fynegi eu sylwadau ar y drafft fel y gellir ei brosesu i'w gynnwys, maes o law, yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**RHEOL SEFYDLOG 4.17 PRESENOLDEB O BELL**

4.17.1 Darperir cyfarpar fideo-gynadleddau yn swyddfeydd y Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli ac yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda yng Nghaernarfon i ganiatáu i aelodau ymuno â phwyllgorau heb fod yn bresennol yn ystafell y cyfarfod ("ymuno o bell"), ar yr amodau canlynol.

4.17.2 Dim ond yn [y pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Iaith] y bydd modd i aelod ymuno o bell.

4.17.3 Rhaid i aelod sy'n dymuno ymuno o bell mewn pwyllgor roi o leiaf [5 niwrnod] o rybudd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. O dderbyn rhybudd yn unol a'r rheol hon bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud y trefniadau anghenrheidiol (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth gyfieithu) i ganiatáu i'r aelod ymuno o bell.

4.17.4 Ni fydd aelod sy'n ymuno o bell yn cyfrif tuag at gworwm y cyfarfod.

4.17.5 Ni fydd cworwm yn y cyfarfod ar unrhyw adeg pan fydd y nifer o aelodau sy'n mynychu yn yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod yn llai na [30%]* o'r holl aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod (boed yn yr ystafell gyfarfod neu'n ymuno o bell)

4.17.6 Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Medi, 2014** |
| **PWNC** | **Gwe Ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau gwe-ddarlledu** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Bydd y pwyllgor yn cofio'r adroddiad yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor oedd yn son am y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cyflwyno gwe-ddarlledu yng Ngwynedd.

2. Y diweddaraf yw bod y system wedi ei fewnosod a dros misoedd yr haf rydym wedi bod yn treialu mymryn ar y dechnoleg. Ddechrau Medi, bydd y swyddogion a fydd yn gweithredu'r system wedi derbyn yr hyfforddiant priodol a byddwn yn symud ymlaen yn fuan wedyn i recordio rhai cyfarfodydd heb eu darlledu.

3. Ar brynhawn 26 Tachwedd, cynhelir sesiwn hyfforddiant ar gyfer yr holl aelodau ar y drefn gwe-ddarlledu. Rydym yn gobeithio y bydd y sesiwn hynny yn cynnwys:-

   - Esboniad o'r gyfundrefn, sut a pha mor aml y bydd yn cael ei ddefnyddio
   - Arddangosiad o'r system i aelodau gael blas ar sut y bydd yn gweithredu yn ymarferol
   - Rhannu canllawiau ynglyn â gweithrediad y system (Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau i'r diben hwn a'r bwriad yw eu haddasu. Mae copi o ganllawiau'r Gymdeithas ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn)

4. O hynny tan y Nadolig, y bwriad fydd gwneud mwy o waith treialu ac ymarfer ar y system gyda'r trefniadau yn mynd yn fyw o ddechrau'r flwyddyn pan y mae Gwefan newydd y Cyngor yn cael ei lansio.

5. I atgoffa'r aelodau, y bwriad yw y bydd y cyfarfodydd a ganlyn yn cael ei gwe-ddarlledu maes o law:-

   - Pob cyfarfod o'r Cyngor llawn
   - Pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio (pan y mae'n eistedd yng Nghaernarfon)
   - Bydd y gweddill o'r oriau yn cael eu defnyddio ar sail asesiad o'r materion ar raglenni gwaith pwyllgorau unigol (yn cynnwys y Cabinet a Chraffu) a fydd o ddiddordeb i'r cyhoedd

6. Ceisir sylwadau'r pwyllgor

# Canllawiau i gynghorwyr am weddarlledu

Awst 2014

# Cyswllt

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Prif ddibenion WLGA yw hyrwyddo safonau ac enw da byd llywodraeth leol a helpu'r awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru ac mae awdurdodau'r tri gwasanaeth tân ac achub a'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.


**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

029 2046 8600
www.wlga.gov.uk



Cyhoeddwyd: Awst 2013



Hawlfraint: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru



ISBN: 978-1-78286-014-3

Diolch i'r swyddogion, y cynghorwyr a'r arbenigwyr sydd wedi helpu i lunio'r canllawiau hyn – yn arbennig Rhwydwaith Swyddogion Cynorthwyo'r Cynghorwyr, Chyfreithwyr Llywodraeth Leol, Mel Doel (sydd wedi hyfforddi cynghorwyr ar ran WLGA yn ogystal â helpu i lunio'r cynnwys) a Kevin O'Keefe o gwmni EXCELA INTERIM MANAGEMENT AND CONSULTANCY LTD (am ein cynghori am faterion cyfreithiol).



**Mae rhagor o wybodaeth gan Sarah Titcombe WLGA.**
**sarah.titcombe@wlga.gov.uk**
**029 2046 8638**

# Rhagair



Mae'n dda gyda fi gyflwyno'r llawlyfr hwn gan WLGA am ddarlledu cyfarfodydd cynghorau lleol. Mae'n rhoi braslun defnyddiol o'r pwnc ac yn cynnig awgrymiadau pwysig ynglŷn â gwneud y gorau o ddatblygiad technolegol cyffrous ac iddo bosibiliadau lu o ran gwella'r modd mae pob cyngor lleol yn ymgysylltu â phobl ei fro.

Mae gweddarlledu prif gyfarfodydd y cynghorau'n gam pwysig ymlaen ynglŷn â gofalu bod llywodraeth leol yn broses dryloyw sydd ar gael i'r cyhoedd, ac mae'n helpu pobl eisoes i ymgysylltu â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau nhw bob dydd. Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn ymddiried yn eu cyngor lleol yn anad unrhyw ffordd arall o lywodraethu i gael y maen i'r wal ynglŷn â'r materion sy'n bwysicaf iddyn nhw.  A ninnau ar fin dechrau un o'r cyfnodau anhawsaf erioed i fyd llywodraeth leol Cymru, fe fydd yn hanfodol i ddarlledu'n fyw sut rydyn ni'n dod i benderfyniadau allweddol i ofalu y bydd pobl yn parhau i ymddiried ynom ni.

Ynghyd â defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae darlledu cyfarfodydd cynghorau ar y we yn prysur ennill ei blwyf ym maes llywodraeth leol.  O ganlyniad, bydd cymunedau'n cael gwylio'r cyngor wrth ei waith a chymryd rhan yn y penderfynu trwy wahanol gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter.  Gobeithio y bydd y cynghorau'n parhau i wneud y gorau o'r dulliau hyn i feithrin rhagor fyth o dryloywder ac annog pobl i gymryd rhan ym mhroses democratiaeth leol.



**Y Cynghorydd Peter Fox**
Arweinydd Cyngor Sir Fynwy
Llefarydd WLGA dros TGCh a Chynhwysiant Digidol

# Beth yw gweddarllediad?

Mae gweddarllediad yn fideo sy'n cael ei chyhoeddi ar y we – naill ai'n fyw neu rywbryd wedyn. Fydd neb yn golygu'r fideo cyn ei darlledu ac mae modd i bawb a chanddo'r Rhyngrwyd ei gwylio'n fyw ac unrhyw bryd wedyn yn ystod y cyfnod y bydd ar wefan yr awdurdod.

Mae cynghorau ledled Cymru yn cyflwyno gweddarlledu bellach i ddangos eu cyfarfodydd amrywiol i'r cyhoedd. Mae'n amlwg bod hynny o arwyddocâd i gynghorwyr am fod modd i bobl gymryd rhan ehangach ym mhroses democratiaeth ac i waith byd llywodraeth leol fod yn fwy trylwyr. At hynny, mae'n golygu y bydd modd i bobl fwrw golwg manylach ar yr hyn mae cynghorwyr yn ei wneud ac yn ei ddweud.

# Pam mae Cymru yn gweddarlledu?

Mae cynghorau Cymru wedi ymroi i hybu democratiaeth leol a helpu pobl i gymryd rhan ynddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu cynghorau i hybu democratiaeth ac ymgysylltu ym maes llywodraeth leol trwy roi £1,125,000 yn 2013/14 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cynghorau ar y we, cyflwyno trefniadau presenoldeb o hirbell a helpu cynghorau cymuned i sefydlu gwefannau. Er nad oes rhaid i awdurdodau lleol ddarlledu eu cyfarfodydd, mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwaith y Llywodraeth wedi eu hannog i ddarlledu rhai cyfarfodydd neu'r cyfarfodydd i gyd er tryloywder ac er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn ôl Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol'[1] sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gofyn statudol i bob awdurdod lleol ddarlledu ei gyfarfodydd ar y we.

Mae fersiwn arfaethedig Côd Arferion Cymeradwy Cyhoeddusrwydd yr Awdurdodau Lleol[2] yn dweud bod 'pobl yn disgwyl y dylai llawer mwy o wybodaeth fod ar gael bellach – yn arbennig gwybodaeth am weithdrefnau penderfynu cyrff etholedig. Dylai cynrychiolwyr gwleidyddol groesawu hynny yn gyfle i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r etholwyr. Anogir yr awdurdodau lleol i drefnu i'w cyfarfodydd fod ar gael i'r cyhoedd trwy eu darlledu nhw.'

## Cynnydd

Mae gweddarlledu'n mynd rhagddo bellach yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i ddibenion y cyfarfodydd yr ystyrir eu bod o gryn ddiddordeb i bobl – yn arbennig cyfarfodydd y cyngor cyflawn, y cabinet a'r pwyllgor cynllunio. Mae rhai cynghorau lleol yn darlledu cyfarfodydd pwyllgorau craffu, hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi penodi cwmnïau masnachol i roi'r gwasanaeth, er bod rhai wedi datblygu eu dulliau eu hunain. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Fynwy yn defnyddio Google Plus a YouTube, mae Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio Livestream i ddarlledu'n ddwyieithog ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi llunio dull trwy Auditel a Vimeo.

---

[1] http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/white-paper-reforming-local-government/?skip=1&lang=cy

[2] http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/130322revisedcodelapublicitycy.pdf

Bydd nifer y rhai sy'n gwylio cyfarfodydd cynghorau ar y we yn amrywio yn ôl y math o gyfarfod ac awdurdod ond, ar y cyfan, mae nifer y rhai sy'n cyrchu gwefannau cynghorau yn awgrymu bod diddordeb pobl yn y darllediadau yn tyfu. Fel arfer, bydd mwy o bobl yn eu gwylio wedyn nac yn fyw.

## Manteision gweddarlledu

Mae gweddarlledu wedi arwain at amrywiaeth helaeth o fanteision sydd wedi'u crynhoi isod. Roedd rhai wedi'u disgwyl er bod rhai annisgwyl wedi'u nodi gan yr awdurdod yn sgîl eu profiad o ddarlledu cyfarfodydd ar y we.

### Ymgysylltu a thryloywder

- Llywodraethu ac atebolrwydd mwy agored a thryloyw.
- Ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a'u galluogi i ddeall prosesau penderfynu.
- Galluogi pobl i wylio cyfarfodydd yn haws – llai o deithio, a mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gallan nhw eu gwylio.
- Helpu pobl i ddeall swyddogaeth pwyllgorau trosolwg a chraffu yn unol â Mesur 'Llywodraeth Leol' Cymru 2011.
- Hybu rhagor o ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol tra bo cyfarfod yn mynd rhagddo.
- Rhoi papurau a chyflwyniadau pob cyfarfod ar gael i bobl yn ogystal â'r fideos.
- Hyrwyddo'r cyngor ymhlith y trigolion am y gallen nhw ystyried ei gyfarfodydd yn fwy adeiladol nag amser holi Prif Weinidog Llywodraeth San Steffan, er enghraifft.

### Manteision i'r cyngor

- Hwyluso presenoldeb o hirbell mewn cyfarfodydd – un o opsiynau Mesur 'Llywodraeth Leol' Cymru 2011 fel y caiff cynghorwyr gymryd rhan mewn cyfarfod o fan cyfleus.
- Annog cynghorwyr i amlygu safonau uchel ynglŷn â phresenoldeb, ymgysylltu ac ymddygiad mewn cyfarfodydd.
- Cyfleu gwybodaeth a phenderfyniadau allweddol yn fwy effeithiol i swyddogion ac i gynghorwyr eraill.
- Rhan ddefnyddiol o raglenni cyflwyno a hyfforddi cynghorwyr a swyddogion.
- Cyfle i gynghorwyr ddysgu arferion da trwy wylio cynghorwyr eraill a chyfle i hysbysu darpar gynghorwyr am eu rôl i hybu adnewyddu democrataidd.
- Llai o ymholiadau o'r wasg am y gall newyddiadurwyr wylio'r darllediadau bellach yn hytrach na gofyn am ddyfyniadau.
- Angen llai o le i'r cyhoedd mewn cyfarfodydd am bynciau poblogaidd neu ddadleuol.
- Defnyddio'r offer a'r lleoliadau i ddibenion eraill megis hyfforddi staff a chyfarfodydd rhwng awdurdodau.
- Rhoi cofnod cywir o bob cyfarfod gan helpu i fireinio'r cofnodion a rhwystro pobl eraill sydd wedi ffilmio cyfarfod rhag camddefnyddio 'uchafbwyntiau wedi'u golygu'.

## Anawsterau gweddarlledu

Mae rhai pryderon wedi'u mynegi am gostau gweddarlledu am ei fod yn cael ei gyflwyno ar adeg pan fydd cyllidebau'r cynghorau lleol yn crebachu'n fawr. Y prif gostau yw prynu neu logi'r offer a thalu am amser y staff fydd yn eu defnyddio.

Y gorchwyl pwysicaf i'r awdurdodau lleol bellach yw cymharu'r costau â'r buddion i weld a yw'n werth darlledu cyfarfodydd ar y we. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cydweithio ag WLGA a'r awdurdodau lleol i arbed arian trwy gaffael ar y cyd. Yn y dyfodol, efallai y bydd gweddarlledu'n eu helpu i arbed arian a chodi incwm trwy, er enghraifft: talfyrru'r cofnodion a'u defnyddio i gofrestru penderfyniadau yn hytrach na'r drafodaeth i gyd; rhoi offer ar log; treulio llai o amser wrth brosesu ceisiadau sy'n ymwneud â Deddf 'Mynnu Gwybodaeth' (yn ôl tystiolaeth ddiweddar) am fod modd gwylio cyfarfodydd yn hawdd.

## Blogiau, trydar a ffilmio yn ystod cyfarfodydd

Mae tua hanner awdurdodau lleol Cymru yn gadael i'w cynghorwyr ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd. Bydd rhai o blith y cyhoedd a'r wasg yn ffilmio cyfarfod weithiau, er bod angen caniatâd i wneud hynny fel arfer.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyfryngau cymdeithasol wedi ennill eu plwyf a'u bod o gymorth ar yr amod bod cynghorwyr yn eu defnyddio'n briodol. Mae awdurdodau sy'n rhwystro cynghorwyr rhag eu defnyddio yn gwneud hynny i'w hannog i ganolbwyntio ar y materion sydd o dan sylw ym mhob cyfarfod. Mae lle i'r cynghorwyr ystyried yr argraff y gallen nhw ei chyfleu i'r cyhoedd pe baen nhw wrthi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod trafodaeth, pleidleisio neu benderfynu.

Dyma ganllawiau WLGA i gynghorwyr ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol:
http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cynorthwyo-a-datblygu-cynghorwyr1/cyfryngau-cymdeithasolcanllaw-i-gynghorwyr

## Deddfau a phrotocolau sy'n berthnasol i weddarlledu

### Deddf 'Diogelu Data'

Mae'n annhebygol y bydd Deddf 'Diogelu Data' yn effeithio ar ddarlledu cyfarfodydd y cynghorau am nad oes modd trafod gwybodaeth bersonol mewn cyfarfod cyhoeddus ni waeth a yw'r cyfarfod hwnnw'n cael ei ddarlledu neu beidio. Pan fo angen trafod unrhyw eithriad – lle na fydd modd i'r cyhoedd na'r wasg fod yn bresennol – rhaid diffodd yr offer a rhoi neges sy'n esbonio pam nad yw'r darllediad ar gael am y tro.

### Deddf 'Mynnu Gwybodaeth'

Ddylai Deddf 'Mynnu Gwybodaeth' ddim fod yn berthnasol i ddarllediadau chwaith achos mai dim ond â gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd eisoes mae'n ymwneud. Does dim rhaid i'r cyngor ymateb i geisiadau am wybodaeth sydd wedi'i darlledu neu sydd ar gael trwy archif cyfarfodydd y wefan.

### Hawlfraint

Y cyngor yw 'awdur' gweddarllediad boed gyfarfod mae'n ei ddarlledu'n fyw neu un sydd mewn archif. Fydd neb yn cael ei ddefnyddio heb ganiatâd y cyngor. Mae'n annhebygol y byddai'r cyngor yn mynd i'r gyfraith pe bai darllediad wedi'i ddefnyddio i ddibenion dilys megis hysbysu neu hyfforddi, er enghraifft.

Byddai modd i'r cyngor fynd i'r gyfraith pe bai darllediad wedi'i ddefnyddio'n amhriodol ar gyfer gwleidydda neu ddychanu, er enghraifft. Rhaid i wefannau lledaenu fideos megis YouTube a Google Video ddweud yn yr amodau a'r telerau fod angen hawlfraint a chaniatâd pawb sydd yn y fideo cyn ei chyhoeddi yno.

## Caniatâd

Pan ddechreuwch chi ddarlledu ar y we, dylech chi siarad â phawb allai gymryd rhan yn y cyfarfodydd i ofalu eu bod yn fodlon cael eu ffilmio. Efallai y bydd rhai pobl yn gofyn am gyrsiau datblygu neu hyfforddi cyn cytuno.

Wrth ledaenu'r agenda, rhaid rhoi gwybod y byddwch chi'n darlledu'r cyfarfod. Cewch chi dybio wedyn fod pawb sy'n bresennol wedi cytuno i gael ei ffilmio a chytuno i'r fideo gael ei defnyddio yn y dyfodol, hefyd.

Ar ddechrau pob cyfarfod sydd i'w ffilmio, dylech chi gyhoeddi y byddwch chi'n darlledu'r cyfarfod yn fyw ac yn ei chyhoeddi ar y we i'w gwylio wedyn, hefyd. Ddylech chi ddim darlledu unrhyw drafodaeth am faterion cyfrinachol na'r rhai sy'n rhydd rhag amodau Deddf 'Mynnu Gwybodaeth'.

## Pleidleisio

Fydd gweithdrefnau pleidleisio ddim yn newid. Dylech chi weld gweddarlledu'n ffordd o ychwanegu at agwedd agored cyfarfod sy'n gyhoeddus ei natur beth bynnag. Bydd modd pleidleisio naill ai trwy ddangos llaw neu ddefnyddio sustem electronig y cyngor. Fe fydd pobl yn cael gweld sut mae cynghorydd wedi pleidleisio, yn ôl y sustem sydd ar waith.

## Dod â gweddarllediad i ben

Bydd y cadeirydd yn cael dod â'r darllediad i ben neu dorri ar ei draws fel y gwêl yn dda os yw o'r farn y byddai'n amharu ar waith y cyfarfod trwy barhau i'w ddarlledu. Er enghraifft:

(i) Pe bai anghydfod cyhoeddus yn torri ar draws y cyfarfod.

(ii) Lle y cytunwyd na ddylai'r cyhoedd na'r wasg fod yn bresennol.

(iii) Lle mae'r cadeirydd a'r pwyllgor yn cytuno y byddai darlledu'n amharu ar waith y cyfarfod.

## Golygu gweddarllediad

Mae'n amlwg nad oes modd golygu rhywbeth tra boch chi'n ei ddarlledu'n fyw. Felly, pe bai cynghorydd yn dweud rhywbeth amhriodol, sarhaus neu anghyfreithlon, fe ddylai'r cadeirydd ofyn iddo ymddiheuro yn syth. Mae modd golygu'r fideo wedyn. Yn wir, gan fod y deunydd sydd yn yr archif ar gael i'r cyhoedd, fe allech chi gyflawni trosedd trwy beidio â dileu cynnwys sarhaus megis sylwadau hiliol anfwriadol. O gyhoeddi unrhyw sylwadau difenwol, byddwch chi'n agored i achos sifil. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe gewch chi roi 'bib' yn eu lle. Anaml y bydd angen golygu fideo ond, mewn achos o'r fath, dylech chi gadw copi o'r fideo cyn ei golygu am y gallai fod ei hangen rywbryd.

# Medrau personol

## Yr olwg sydd arnoch chi

Bydd rhai medrau a mathau o ymddwyn y dylech chi eu cadw mewn cof wrth ymddangos mewn gweddarllediad. Gallai'r ystyriaethau isod fod o gymorth i chi:

- Peidiwch â symud yn ormodol! Gall gormod o symud amharu ar ansawdd y darlun a'i gwneud hi'n anodd i'r camera eich dilyn. Gallech chi ymddangos yn drwsgl wrth blygu i siarad trwy feicroffon ac, felly, mae rhai cynghorau lleol yn ystyried newid gweithdrefn eu cyfarfodydd fel y bydd cynghorau'n cael parhau ar eistedd yn eu cadeiriau.

- Wrth ystyried eich gwisg, rhaid cadw pob un o onglau'r camera mewn cof a gofalu nad ydych chi'n gwisgo dillad na gemwaith a allai gyffwrdd â'r meicroffon a rhwystro gwylwyr rhag clywed eich geiriau. Mae cadwyn y maer yn arbennig o debygol o wneud hynny!

- Peidiwch â gwylio'r darlledniad yn fyw trwy'ch teclyn eich hun am y gallai hynny amharu ar ansawdd y sain.

- O siarad ag aelodau eraill, bwyta ac addasu'ch dillad yng ngolwg y camera, gallech chi dynnu sylw'r gwylwyr oddi wrth y sawl sy'n siarad os ydych chi y tu ôl iddo.

- Mae iaith y corff yn bwysig. O fethu ag eistedd yn unionsyth, gallech chi gyfleu argraff eich bod wedi colli diddordeb. O gau'ch llygaid, gallai pobl feddwl eich bod yn cysgu.

### Siarad

Er bod y rheolau cyffredinol am siarad yn gyhoeddus yn berthnasol i bob cyfarfod, mae rhai mathau o ymddygiad fydd yn eich helpu i ymddangos yn dda mewn darllediad fel y bydd y cyfarfod yn fwy diddorol a defnyddiol i'r gwylwyr. Yn anad dim, dylech chi fod yn naturiol!

- Siarad yn gryno heb fod yn hirwyntog.

- Osgoi siarad yn gyflym. Os ydych chi'n baglu dros eich geiriau, efallai eich bod yn rhuthro trwy'ch araith.

- Paratoi eich cyfraniad (bydd pwyntiau bwled yn eich galluogi i siarad yn naturiol heb ymddangos fel pe baech chi'n darllen araith).

- Bod yn effro i'r modd y gallai'r gynulleidfa ddehongli'ch negeseuon – eich geiriau a'r modd rydych chi'n eu dweud.

- Gallai fod angen egluro rhai pethau er gwybodaeth i'r lleygwyr. Wrth ddatgan unrhyw fuddiannau, er enghraifft, fe fyddai o gymorth pe gallech chi ddweud nid yn unig eich bod yn ymwneud â rhyw fater ond, hefyd, a ydych chi'n ymwneud ag e mewn modd personol neu niweidiol a sut rydych chi'n bwriadu gweithredu o ganlyniad.

- Osgoi jargon ac 'ieithwedd y cyngor' – mae hynny'n berthnasol i'r swyddogion hefyd!

- Mae'n anodd torri ar draws rhywun sy'n siarad mewn darllediad achos mai dim ond y cadeirydd a'r sawl sy'n siarad y bydd y gwylwyr yn eu gweld, fel arfer. Yn aml, fe fydd unrhyw sylwadau eraill yn annealladwy achos nad yw'r meicroffon yn ddigon agos.

- Gofalu eich bod yn ddigon agos at y meicroffon a'ch bod yn ei wynebu drwy'r amser. Ddylech chi ddim siarad nes y daw'ch golau ymlaen

neu, fel arall, fydd neb yn clywed eich geiriau cyntaf!  Rhaid diffodd eich meicroffon ar ôl ichi orffen siarad.

- Bod yn effro i'r modd y gallai'r cyfryngau ddefnyddio'ch sylwadau.

### Medrau cadeirydd

Mae cadeirydd y cyfarfod yn hanfodol i'r gwylwyr fel pe baen nhw'n gynulleidfa yn y fan a'r lle.  Dyma rai awgrymiadau y gallai cadeiryddion eu hystyried:

- Cyflwyno'r bobl allweddol fydd yn cymryd rhan yn y cyfarfod fel y bydd y gwylwyr yn gwybod pwy ydyn nhw (swyddogion, tystion a'r cadeirydd ei hun, wrth gwrs).  Mae'n bwysig dweud beth yw rôl pawb yn y cyfarfod, hefyd.

- Esbonio rhai o weithdrefnau'r cyfarfod os na fyddan nhw'n amlwg i'r gwylwyr.  Pan fo egwyl, er enghraifft, rhaid esbonio'r rheswm dros hynny a phryd y bydd y cyfarfod yn ailddechrau.

- Gorfodi pawb i orffen cyn pen hyn a hyn o amser – naill ai trwy weithdrefn ffurfiol neu trwy dorri ar draws rhywun mae'i gyfraniad yn un hir nad yw'n gynhyrchiol.

- Atgoffa pawb bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu ac y bydd ar gael ar y we wedyn.

- Esbonio amryw elfennau'r agenda megis mater er gwybodaeth, mater mae angen penderfynu arno a mater mae rhaid pleidleisio arno.  O dorri ar draws darllediad am unrhyw reswm megis trafod materion cyfrinachol, dylech chi esbonio pryd y bydd yn digwydd a pham.

- A chithau'n gadeirydd, gallai fod angen ichi drin a thrafod offer megis sustem cynffon a chaniatâd y siaradwyr.  Dylech chi ofalu eich bod yn gwybod sut mae'i defnyddio.

## Cyfleoedd yn y dyfodol

Fel y bydd gweddarlledu a'i dechnoleg yn datblygu, bydd modd defnyddio cyfleusterau gweddarlledu i wella ac ehangu nifer o weithgareddau'r cyngor.

Gan gynnwys:

- Cyfathrebu'n fyw â chynghorwyr a swyddogion trwy'r Rhyngrwyd i ddibenion megis cyfarfod hysbysu gan yr arweinydd neu'r prif weithredwr.

- Sesiynau hyfforddi – naill ai'n fyw neu wedi'u recordio – i'ch cyngor chi ac, o bosibl, i bob cyngor arall wedyn.

- Mwy a mwy o ymgysylltu â darllediadau trwy gyfryngau cymdeithasol sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw.

- Cysylltu'n fyw mewn cyfarfodydd â grwpiau cymunedol ac ysgolion ar gyfer trafodaeth am gynlluniau a pholisïau.

- Cyfleoedd i 'hysbysebu' gwasanaethau'r cyngor a darlledu er gwybodaeth i'r cyhoedd.

Mae technoleg gweddarlledu'n fan cychwyn galluogi cynghorwyr i gymryd rhan o hirbell yn y cyfarfodydd.  Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob cyngor ddatgan yn ei gyfansoddiad sut y bydd presenoldeb o hirbell ar gael yn ystod ei gyfarfodydd. Dyma ragor o wybodaeth:

http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/statutory-guidance-section-4-remote-attendance/?skip=1&lang=cy

## Gwylio darllediadau awdurdodau lleol eraill (dim ond yn Saesneg)

| | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | http://www.blaenau-gwent.public-i.tv/core/ |
| Bannau Brycheiniog | http://www.breconbeacons.public-i.tv/core/ |
| Caerdydd | http://www.cardiff.public-i.tv/core/ |
| Sir Gaerfyrddin | http://www.carmarthenshire.public-i.tv/core/ |
| Ceredigion | http://new.livestream.com/ceredigion/events/2493787 |
| Conwy | http://www.conwy.public-i.tv/core/ |
| Sir Ddinbych | http://www.denbighshire.public-i.tv/core/ |
| Sir y Fflint | http://www.flintshire.public-i.tv/core/ |
| Casnewydd | http://www.newport.public-i.tv/core/portal/home |
| Sir Benfro | http://www.pembrokeshire.public-i.tv/core/ |
| Powys | http://www.Powys.public-i.tv/core/portal/home |
| Torfaen | http://www.torfaen.public-i.tv/core/ |

# Enghreifftiau o'i ddefnyddio yn yr awdurdodau

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen ddarlledu cyfarfodydd y cyngor cyflawn a'r cabinet ar y we yng ngwanwyn 2013. Ar ôl sefydlu cytundeb trwy'r prosesau arferol, gosododd cwmni public-i yr offer yn siambr y cyngor ym mis Awst 2013. Roedden ni o'r farn y byddai'n bwysig iawn hyfforddi'r cynghorwyr i gyd a'r swyddogion perthnasol (staff y gwasanaethau democrataidd sy'n cyflwyno adroddiadau'n fynych) gan ofyn i Melanie Doel (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) i'w hyfforddi. Hyfforddodd hi garfanau bychain o gynghorwyr a swyddogion dros nifer o wythnosau a sesiynau gan eu galluogi i drafod unrhyw bryderon neu faterion. Gan fod Melanie Doel yn newyddiadurwr profiadol ac yn aelod o awdurdod oedd wedi bod yn darlledu cyfarfodydd ar y we ers peth amser, gallai hi roi digon o awgrymiadau a llawer o hyder i'r rhai o dan hyfforddiant.

Dechreuon ni ddarlledu cyfarfodydd y cyngor cyflawn a'r cabinet ar y we fis Hydref 2013, yn ogystal â darlledu'r diweddaraf am y gyllideb gan aelod y cabinet dros adnoddau a thri seminar i gynghorwyr am inni eu hystyried yn rhai fyddai o ddiddordeb arbennig i'r bobl. Staff y gwasanaethau democrataidd a'r gwasanaethau i gynghorwyr sy'n defnyddio'r offer – a hynny'n fedrus iawn – gyda chymorth cwmni public-i o hirbell yn ôl yr angen. Cyn darlledu cyfarfod, byddwn ni'n ei hysbysebu trwy gyfryngau cymdeithasol ynghyd â linc ag agenda'r cyfarfod fel y gall pobl gweld yr hyn sydd i'w drafod o flaen llaw.

Mae'r wyth gyfarfod cabinet oedd wedi'u darlledu hyd at 10fed Mehefin 2014 wedi denu 6,373 o wylwyr (1,641 yn fyw a 4,732 trwy'r archif) – 797 y cyfarfod ar gyfartaledd. Mae wyth gyfarfod y cyngor wedi denu 9,154 o wylwyr (2,987 yn fyw a 6,167 trwy'r archif) – 1,144 y cyfarfod ar gyfartaledd. Mae'r tri seminar wedi'u gwylio 1,849 o weithiau (385 yn fyw a 1,464 trwy'r archif) – 616 y cyfarfod ar gyfartaledd (mae'r seminar am y gyllideb wedi'i wylio 1097 o weithiau). Mae'r diweddaraf am y gyllideb wedi'i wylio 519 o weithiau (1 yn fyw a 518 trwy'r archif). Fis Ionawr 2014, penderfynon ni ddarlledu cyfarfodydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu pan fydden nhw o ddiddordeb arbennig i bobl, hefyd. Hyd yma, rydyn ni wedi darlledu pedwar cyfarfod sydd wedi'u gwylio 987 o weithiau (156 yn fyw ac 831 trwy'r archif) – 247 y cyfarfod ar gyfartaledd.

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o staff y cyngor yn gwylio'r cyfarfodydd am yr hoffen nhw ddysgu rhagor am y modd mae'r cyngor, y cabinet a'r pwyllgorau'n gweithio, am eu bod yn ymwneud â rhai penderfyniadau neu am y byddai penderfyniadau o'r fath yn effeithio arnyn nhw. Rydyn ni'n gwybod bod trigolion y fro a phobl eraill ym myd llywodraeth leol ledled Cymru a'r tu hwnt yn eu gwylio, hefyd. Mae modd eu gwylio o unrhyw le, wrth gwrs. Allwn ni ddim nodi pwy yw'r gwylwyr na ble maen nhw ond mae'r sustem wedi cofnodi 8992 o gyfeiriadau unigryw. O blith y rheiny, mae 5,358 o bobl wedi gwylio un cyfarfod neu unwaith ac mae 3,634 wedi gwylio mwy nag un cyfarfod neu fwy nag unwaith. Gallai cyfeiriad unigryw gynrychioli unigolyn neu gylch o bobl megis cwmni lleol.

Dim ond lle i gynulleidfa fechan iawn (tua 20 o bobl) sydd yn siambr y cyngor ac, felly, mae'n amlwg bod gwaith y cyngor wedi cyrraedd miloedd o bobl na fydden nhw wedi'i weld fel arall. Mae'r cyngor o'r farn bod gweddarlledu'n well o lawer

ynglŷn â hyrwyddo agwedd agored, tryloywder a democratiaeth leol.  Mae disgwyl y bydd y cyngor ar 24ain Mehefin 2014 yn penderfynu darlledu holl gyfarfodydd y pwyllgorau craffu a'r pwyllgorau dros gynllunio a thrwyddedu.

Mae'r cyfarfodydd, yr hyn sydd wedi digwydd ynddyn nhw a'r penderfyniadau sydd wedi deillio ohonyn nhw wedi bod yn destun cryn dipyn o drafod yn Nhor-faen yn ôl cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu.  Mae pryderon sawl cynghorydd a swyddog am ddarlledu ar y we mewn angof ar y cyfan, achos bod pawb yn gyfarwydd â'r dull bellach ac wedi'i dderbyn yn rhan o'r trefniadau arferol.  Mae lle i ddweud bod y cyfarfodydd yn fwy effeithlon ers cyflwyno darlledu am eu bod yn fyrrach, mae llai o ailadrodd ac mae tuedd i gadw at y materion o dan sylw.  Does dim tystiolaeth bod pobl yn gyndyn o siarad ynddyn nhw o ganlyniad i'w darlledu, fodd bynnag.  Ar wahân i'r darlledu, bydd cyfarfodydd yn mynd ymlaen yr un fath ag o'r blaen (er bod rhaid defnyddio'r un ystafell ar gyfer pob un) ond maen nhw wedi'u gwylio bron 19,000 o weithiau ychwanegol.

Y casgliad yw bod darlledu cyfarfodydd Tor-faen ar y we wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae'n amlwg ein bod wedi cyrraedd cynulleidfa enfawr newydd.  Mae'r cyhoedd a'r staff wedi ymgysylltu â ni i raddau helaeth o ganlyniad i weddarlledu.  Yr elfennau hanfodol yn y broses oedd arweiniad yr hoelion wyth, cefnogaeth y cynghorwyr a'r swyddogion (trwy'r cyngor cyflawn), hyfforddiant a sicrhad pobl oedd yn gyfarwydd â darlledu yn barod a'n hawydd ni i hybu ac agor democratiaeth.

Byddai CBS Tor-faen yn argymell pob cyngor i ddechrau darlledu cyfarfodydd ar y we.

## Cyngor Sir Powys

Datblygodd gweddarlledu ym Mhowys ar ôl darlledu un o gyfarfodydd y cyngor i ryw 2000 o bobl y tu allan i farchnad da byw'r Trallwng yn 2011.  Roedd y cyngor wedi cwrdd yno i drafod materion ffermydd gwynt yn y sir.

Gan dybio y byddai cyfarfodydd yn neuadd y sir am ffermydd gwynt yn denu llawer o bobl o hynny ymlaen, penderfynodd y cyngor ystyried a fyddai modd rheoli nifer y bobl a ddaw yno a gofalu y gallai pawb a chanddo ddiddordeb yn y cyfarfodydd eu gweld yn haws trwy eu darlledu ar y we.  Mae hynny wedi helpu'r cyngor i drefnu'r cyfarfodydd – a chan fod y staff sy'n ymwneud â'r broses yn brofiadol erbyn hyn, mae modd gwneud hynny'n gyflym.

Rhoes Llywodraeth Cymru £40,000 i'r cyngor ar gyfer gweddarlledu wedyn i ennyn diddordeb yn y syniad ymhlith cynghorau'r wlad a hwyluso rhagor o atebolrwydd a thryloywder yn eu gwaith.

Mae 17 cyfarfod ym Mhowys wedi'u gweld 23,395 o weithiau.  Dyma enghreifftiau:

| | |
|---|---|
| Ffermydd gwynt mawr | 2705<br>2877 |
| Pwyllgor cynllunio | 1509<br>1301<br>1096<br>782 |
| Cyngor y sir | 1878 |
| Cyngor y sir – materion cyllidebol | 1804<br>3175 |
| Cabinet | 1731<br>1037 |
| Diwrnod dweud eich dweud (cyllideb) | 1951 |
| Pwyllgor craffu | 254 |

Mae nifer y gwylwyr wedi amrywio rhwng 150 a 490 ynglŷn â phedwar cyfarfod arall.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae awdurdod y parc cenedlaethol wedi bod yn darlledu cyfarfodydd yr awdurdod i gyd a'r pwyllgorau dros faterion cynllunio, archwilio a chraffu ers ychydig dros ddwy flynedd bellach. 31,500 yw cyfanswm y rhai sydd wedi'u gwylio. Ar gyfartaledd, mae cyfarfodydd awdurdod y parc cenedlaethol wedi'u gwylio 671 o weithiau. Mae cyfarfodydd pwyllgor y materion cynllunio wedi'u gwylio 556 o weithiau ac mae cyfarfodydd y pwyllgorau dros faterion archwilio a chraffu wedi'u gwylio 436 o weithiau. Mae cyfanswm y gwylwyr a nifer y gwylwyr ar gyfartaledd wedi parhau i gynyddu dros y ddwy flynedd ac mae cost pob gwylio wedi gostwng at 81c o'i chymharu â £2.40 ar y dechrau.

Dyma fanteision darlledu'n cyfarfodydd ni ar y we.

- Mae gweddarlledu'n annog pawb i lywodraethu'n dda a pharatoi'n dda ar gyfer y cyfarfodydd (aelodau a swyddogion fel ei gilydd).
- Mae cyfleoedd i ledaenu negeseuon ymhlith y cyhoedd yn wyneb beirniadaeth am ryw fater penodol.
- Mae cyfleoedd i aelodau roi adroddiadau am gyfarfodydd y buon nhw ynddynt neu achlysuron lle mae nhw wedi cynrychioli'r awdurdod, gan ddangos rôl ehangach yr aelod.
- Gall pobl weld Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiadau blynyddol am faterion gwella ac ymatebion yr aelodau (gan wrthod y casgliadau, weithiau).
- Gallwn ni logi cyfleusterau cyfarfod ynghyd ag offer gweddarlledu bellach (gallwn ni gynnal y cyfarfodydd naill ai yn ein hadeilad ni neu ar safleoedd y cwsmeriaid).
- Gallwn ni ymateb i honiadau nad yw materion wedi'u hystyried nac wedi'u trafod yn briodol trwy anfon linciau â'r trafodaethau perthnasol yn y cyfarfodydd. Gallwn ni brofi bod y cofnodion yn gywir, hefyd.
- Rydyn ni wedi defnyddio gweddarlledu ar gyfer cyflwyniadau mewn cyfarfodydd. Er enghraifft: yr Adran dros Faterion Diwylliannol, y Cyfryngau a Chwaraeon; Dŵr Cymru; Costain.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

- Darlledu'n rhaglen addysg ar y we.
- Cyfweld aelodau o ferched ar y we fel y gall Llywodraeth Cymru ac WLGA ddefnyddio'r fideos i hyrwyddo rôl merched yn ein bywyd cyhoeddus.
- Cyfweld aelodau am eu datblygu proffesiynol ar gyfer Breinlen Uwch Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
- Ystyried defnyddio cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at bynciau penodol.
- Lledaenu'n hadroddiad ni am gyflwr y parc.
- Cynnwys rhagor o bobl ym mhroses gynllunio strategol y parc trwy eu gwahodd i adolygu cynllun rheoli'r parc cenedlaethol.
- Darlledu seminarau am bynciau megis gwasanaethau a mastiau ffonau symudol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 9 Medi 2014 |
| **PWNC** | Gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o'r cynllun i gefnogi cynghorau tref a chymuned i ddatblygu gwefannau |
| **AWDUR** | Geraint George,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn 2013/14, bu i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid i alluogi Awdurdodau Lleol i ddarparu grant o £500 yr un i Gynghorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan.

1.2 Pwrpas y grant hwn oedd cynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned i baratoi ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), sydd yn cynnwys darpariaeth sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned i gyhoeddi gwybodaeth ar wefan; bwriad y grant hwn yw eu cynorthwyo i gwrdd â'r gofyn hwn.

1.3 Er mwyn cyflawni hynny, bu i Gyngor Gwynedd arwyddo cytundeb grant gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y grant hwn yn cynnwys £32,000 ar gyfer dyrannu grant o hyd at £500 yr un i Gynghorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan.

## 2. DIWEDDARIAD O'R AMSERLEN A'R SEFYLLFA ARIANNU

2.1 Ar 5 Chwefror 2014, derbyniwyd gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau fod Lesley Griffith AC, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi cytuno i ganiatáu i unrhyw gyllid a dderbyniwyd ar gyfer gwe ddarlledu cyfarfodydd cyngor, mynychu o bell, a gwefannau cynghorau cymuned i'w cario drosodd i'r flwyddyn ariannol 2014/15.

2.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod cynnydd i ddatblygu gwefannau mewn rhai cynghorau cymuned wedi bod yn araf. Felly drwy ganiatáu i'r cyllid gario drosodd, rhydd hyn gyfle i gynnig mwy o hyblygrwydd i'w galluogi i baratoi'n well ar gyfer y gofyn fydd arnynt i gael gwefan unwaith y bydd rhannau priodol o Fesur Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 wedi dod i rym, fel y bwriedir yn 2015.

## 3. DIWEDDARIAD AR Y GRANT YNG NGWYNEDD

3.1 Ym mis Gorffennaf 2013, rhoddwyd cynnig i'r Cynghorau Tref a Chymuned i ddatgan diddordeb mewn derbyn grant o hyd at £500.00 i ddatblygu gwefan. Gan fod y swm ar gael yn gymharol isel, penderfynwyd cynnig dau opsiwn, sef:

a) Opsiwn 1
Cyngor i sefydlu gwefan unigol, gan ymrwymo i gynnal y wefan am isafswm o dair blynedd.
b) Opsiwn 2
Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned eraill yn y sir i sefydlu gwefan ar y cyd fyddai'n cynnwys adran i bob Cyngor unigol, gan ymrwymo ar y cyd i gynnal y wefan am isafswm o dair blynedd.

**Opsiwn 1**

3.2 Penderfynwyd y byddai Cist Gwynedd yn gweinyddu'r broses grant ar gyfer datblygu gwefan i Gynghorau Tref a Chymuned yng Ngwynedd.

3.3 Ym Medi 2013, derbyniwyd eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru y byddai modd i Gynghorau Tref a Chymuned ddefnyddio'r grant ar gyfer y pwrpasau canlynol:

a) creu gwefan newydd
b) datblygu gwefan sydd eisoes yn bodoli.

3.4 Yn Tachwedd 2013, anfonwyd ffurflenni cais gan Cist Gwynedd i'r Cynghorau Tref a Chymuned ddaru ddatgan diddordeb yn Opsiwn 1; 31 o Gynghorau Tref a Chymuned i gyd; gyda dyddiad cau'r broses ymgeisio ar 10 Ionawr 2014.

3.5 Hyd yma, mae 31 o gynghorau tref a chymuned wedi datgan eu dymuniad i fanteisio ar y grant unigol, ac o'r rheiny, mae 25 ohonynt ar wahanol rannau o'r broses, a 6 cyngor heb yrru eu ceisiadau yn ôl.

**Opsiwn 2**

3.6 Uned TG y Cyngor sydd yn arwain ar Opsiwn 2. Mae'r Uned TG yn ddiweddar wedi gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan gwmnïau addas ar gyfer dylunio a sefydlu gwefan ar y cyd i Gynghorau Tref a Chymuned, gyda'r bwriad maes o law o gomisiynu cwmni i gyflawni'r gwaith.

3.7 Bwriad yr Uned TG yw sicrhau fod y cwmni a benodir yn cynnull cyfarfod gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned hynny sydd wedi datgan ddiddordeb yn Opsiwn 2 yn yr hydref er mwyn trafod anghenion y Cynghorau fel cleientau.

## 4 ARGYMHELLIAD

4.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-

a) parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod 2014/15.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 9 Medi 2014 |
| **PWNC** | Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig |
| **PWRPAS** | Diweddariad ar sefyllfa Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig ar gyfer 2013/14. |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eisoes yn ymwybodol fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol <u>wneud trefniadau</u>:

- I bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi; ac
- i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

1.2 Bwriad yr Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhyngddynt â'r cyhoedd. Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y byddai'r adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt, gan alluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol.

## 2. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GWYNEDD 2013/14

2.1 Yn 2013/14, bu i'r Cyngor gynorthwyo'r aelodau etholedig i lunio eu hadroddiadau blynyddol drwy ddarparu'r canlynol:

a) templed safonol ar gyfer yr adroddiad blynyddol
b) gwybodaeth am nifer y pwyllgorau a fynychwyd yn ystod 2013/14 (ar gyfer pob cynghorydd yn unigol)
c) gwybodaeth am nifer yr hyfforddiant a fynychwyd yn 2013/14 (ar gyfer pob cynghorydd yn unigol).

2.2 Er nad yw'r adroddiadau blynyddol wedi eu cyhoeddi eto, hyd yma mae 25 aelod etholedig wedi llunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2013/14, sef 6 aelod o'r Weithrediaeth ac 19 aelod anweithredol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Medi, 2014** |
| **PWNC** | **Cyfweliadau Datblygu Personol** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ar drefniadau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Bydd y pwyllgor yn cofio am yr angen i'r Cyngor gynnig trefn lle mae aelodau yn cael cynnig cyfweliad datblygu personol. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru, 2011 yn mynnu bod pob cyngor yn cynnig proses i aelodau asesu eu hanghenion datblygu.

2. Yn dilyn trafodaethau blaenorol y pwyllgor hwn, gohebwyd â phob aelod sydd ddim ar y Cabinet i roi'r cynnig hwn iddynt. Er gwybodaeth i'r pwyllgor, mae 20 aelod wedi dweud ei bod yn dymuno cael cyfweliad o'r fath ac mae trefniadau ar y gweill i gynnal y cyfweliadau hyn yn ystod mis Medi.

3. Er gwybodaeth, bydd yr aelodau Cabinet hefyd yn gweithredu proses o asesu eu anghenion datblygu, ond bydd y broses a weithredir gan y Cabinet yn cynnwys elfen o reoli perfformiad yn ogystal.